# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 3

Haf 2025

© WJEC CBAC Ltd.2025



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu’r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon - yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni - â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Borth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1 | 8 |
| Uned 2 | 20 |
| Uned 3 | 30 |
| Uned 4 | 32 |
| Uned 5 | 37 |
| Uned 6 | 40 |
| Uned 7 | 47 |
| Uned 8 | 50 |
| Uned 9 | 52 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 57 |


© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

Hon oedd ail flwyddyn Diploma Estynedig Lefel 3 ac ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i unrhyw un o'r naw uned y flwyddyn hon. Cyflwynwyd gwaith yr asesiad di-arholiad drwy IAMIS yn unig ac roedd yn syml ar y cyfan er y dylai canolfannau sicrhau bod ffeiliau wedi'u sipio yn hygyrch i'r cymedrolwyr a bod y gwaith wedi'i gadw mewn nifer llai o ffeiliau pan fo modd yn y dyfodol.
Nodwch y bydd dyddiad cyflwyno cynharach ar gyfer unedau lle ceir asesiad di-arholiad y flwyddyn nesaf:
Unedau 1, 4, 5 ac 8 – 15 Mai
Unedau 3, 6 a 9 – 5 Mehefin
Mae'r dyddiadau hyn yn ddyddiadau cau gorfodol ac maent yn disodli'r dyddiad cau presennol sef 11 Mehefin oni fydd canolfannau wedi gwneud cais llwyddiannus am estyniad.

**Unedau a Asesir yn allanol (2 a 7)**
Roedd yn braf nodi, ar gyfer y ddwy uned yn y gyfres hon, bod y perfformiad mewn arholiadau wedi gwella. Dangosodd yr ymgeiswyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fanyleb a gwnaethant lwyddo i gymhwyso'r wybodaeth i senarios penodol sy'n dangos dealltwriaeth effeithiol. Ar gyfer cwestiynau tariff uwch, gwelwyd gostyngiad amlwg yn nifer y cwestiynau a adawyd yn wag gan fod nifer mwy o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn.

Dylai canolfannau ganolbwyntio ar adnabyddiaeth o'r berfau gorchmynnol drwy ymarfer arholiadau ac annog yr ymgeiswyr i ystyried amrywiaeth o ddadleuon a'u gwerthuso mewn perthynas â chryfderau a gwendidau. Dylid canolbwyntio'n benodol ar ymatebion yr ymgeiswyr i gwestiynau AA3. Bydd adnoddau fel arweiniad arholiad, adolygiad o arholiad ar-lein ac adborth ar asesiadau'r haf yn cefnogi'r canolfannau i baratoi ymgeiswyr ar gyfer yr unedau ag arholiadau allanol.

Ar gyfer Uned 2, dylai ymgeiswyr gael gwybodaeth am y prif ddamcaniaethwyr a dylent ymarfer cymhwyso damcaniaethau i senarios er mwyn deall sut maent yn cyd-fynd ag ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd cyfradd ymdrech well ar y cwestiynau ar y damcaniaethwyr y flwyddyn hon gan ddangos bod canolfannau wedi paratoi'r ymgeiswyr drwy addysgu adran 2.2 o'r fanyleb yn glir.

Roedd Uned 7 yn dangos gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn y gyfres hon gan ddangos mwy o hyder a dealltwriaeth gan yr ymgeiswyr. Eto, roedd y cwestiynau tariff uwch yn dangos ymatebion mwy datblygedig a gwelwyd cyfraddau ymdrech gwell o lawer. Yn y dyfodol, dylai canolfannau ganolbwyntio ar annog yr ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth i'r effaith ar ffisioleg ddynol er mwyn cael marciau uwch ar gyfer cwestiynau sy'n gysylltiedig â 7.3 yn y fanyleb.

Nodwch y gellir cael gafael ar y ddwy uned ar-lein yn ogystal ag yn ysgrifenedig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Unedau a asesir yn fewnol (1, 3, 4, 5, 6, 8 a 9)**
Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y canolfannau wedi lanlwytho'r tasgau yn brydlon ac mewn fformat hygyrch. Cyflwynwyd y gwaith yn dda ac roedd tystiolaeth ategol ar gael pan ofynnwyd. Ar gyfer tasgau lle na chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd, dylid lanlwytho nodiadau dosbarth i ategu'r gwaith. Gofynnir i ganolfannau sicrhau nad yw nodiadau dosbarth a sylwadau adborth yn cyfeirio at yr astudiaethau achos ar gyfer unedau 1, 4, 5 ac 8 oherwydd y byddai hyn yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi cael mynediad at ddeunyddiau a ryddhawyd cyn yr asesiad. Roedd yn braf nodi bod yr holl ganolfannau wedi defnyddio'r astudiaethau achos cywir yn y gyfres hon.

Ar gyfer Uned 6, dylai canolfannau geisio sicrhau lleoliad iechyd neu ofal cymdeithas i'r ymgeiswyr i'w galluogi i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Lle mai ysgolion prif ffrwd yw'r unig opsiwn, dylid sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael cyfle i arsylwi ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel seicolegwyr addysgol, nyrsys ysgol ac ati.
Roedd yn braf nodi bod canolfannau wedi derbyn cyngor ar bynciau ymchwil ar gyfer Uned 9 y flwyddyn hon ac wedi annog yr ymgeiswyr i gulhau eu meysydd pwnc yn y rhan fwyaf o achosion. Dylid trafod yr amrywiaeth o feysydd presennol a pherthnasol ar gyfer ymchwil â'r ymgeiswyr cyn dechrau'r uned hon.

Mae deallusrwydd artiffisial wedi dod yn fwy amlwg y flwyddyn hon, ac mae rhai canolfannau wedi nodi hyn, a hynny'n gywir, ar waith yr ymgeiswyr, gan beidio â rhoi unrhyw farciau ar gyfer adrannau lle amheuir defnydd o ddeallusrwydd artiffisial/llên-ladrad. Cyfrifoldeb y canolfannau yw egluro i'r ymgeiswyr eu bod yn llofnodi i ddilysu mai eu gwaith nhw ydyw. Dylid monitro'r broses o oruchwylio asesiadau di-arholiad yn agos mewn canolfannau, yn benodol lle na chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu gwaith eu hunain heb gymorth deallusrwydd artiffisial. Ymchwilir i achosion o lên-ladrad a'r defnydd o ddealltwriaeth artiffisial fel camymddygiad.

© WJEC CBAC Ltd.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| Ymarfer cwestiwn arholiad | HTTPS://WWW.DYSGUIECHYDAGOFAL.CYMRU/ ADNODDAU | ADOLYGU ARHOLIADAU AR-LEIN ARWEINIAD I'R ARHOLIAD CYN-BAPURAU A CHYNLLUNIAU MARCIO ADBORTH AR ASESIAD YR HAF (DIGWYDDIAD DYSGU PROFFESIYNOL AR-LEIN) |
| Atgyfnerthu dysgu | HTTPS://WWW.DYSGUIECHYDAGOFAL.CYMRU/ ADNODDAU | Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw i athrawon |
| Strwythur yr Asesiad Di-arholiad | GWEFAN DDIOGEL CBAC | Deunyddiau enghreifftiol ac adnoddau dysgu proffesiynol |

© WJEC CBAC Ltd.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 3**

**Haf 2024**

**UNED 1: EGWYDDORION GOFAL AC YMARFER DIOGEL O FEWN GOFAL PERSON-GANOLOG SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU**

## Trosolwg o'r Uned

Uned 1
Mae a wnelo'r uned hon â chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol, rolau ac atebolrwyddau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector. Rhoddir astudiaeth achos i ymgeiswyr o ddewis o ddwy astudiaeth ond ni chaniateir iddynt weld yr astudiaeth achos tan ddechrau'r asesiad. Caniateir i'r ymgeiswyr ddod â nodiadau dosbarth gyda nhw, fodd bynnag, dylai'r nodiadau hyn fod yn rhai cyffredinol, ac ni ellir cyfeirio at yr astudiaeth achos gan na fyddant wedi gweld yr ysgogiad cyn yr asesiad. Ymhellach, ni all yr ymgeiswyr ychwanegu at eu nodiadau dosbarth ar ôl cyflwyno. Cyflwynwyd rhai nodiadau dosbarth da yn ystod y gyfres hon. Dylid lanlwytho nodiadau dosbarth gyda gwaith yr ymgeiswyr.
Mae'r ddwy astudiaeth achos ar gyfer cyfres Haf 2025 yn seiliedig ar Aftab ar gyfer Astudiaeth Achos A ac Angharad ar gyfer Astudiaeth Achos B. Defnyddiodd yr holl ganolfannau yr astudiaethau achos cywir ar gyfer y gyfres hon, sydd i'w gweld ar y porth.

Ar gyfer Tasg 1, ni chaiff yr ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd ond caniateir iddynt ddod â hyd at 6 sleid (3 tudalen) o nodiadau dosbarth gyda nhw. Ar gyfer Tasg 2, nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Ar gyfer Tasg 1, rhoddir 14 awr i'r ymgeiswyr, ond ar gyfer Tasg 2, 6 awr sydd ganddynt i gwblhau eu gwaith.

Mae'n bwysig ar gyfer Tasg 2 bod yr ymgeiswyr yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r lleoliadau gwahanol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Gall lleoliadau hefyd gynnwys cartrefi unigolion, nid dim ond lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Dylai Tasg 2 ganolbwyntio ar y lleoliadau/gweithwyr sy'n berthnasol i'r astudiaeth achos a ddewiswyd.

Aseswyd amcanion asesu dros bum cwestiwn ar gyfer Tasg 1 a dau gwestiwn ar gyfer Tasg 2, gyda 40% o Uned 1 yn cael ei asesu ar gyfer AA1, 36% ar gyfer AA2 a 26% ar gyfer AA3. Ar gyfer Uned 1, mae'r cynnwys a aseswyd yn cynnwys egwyddorion gofal, gofal, gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, heriau a wynebir gan weithwyr, dulliau ac egwyddorion moesegol a dangos ymddiriedaeth a chyfathrebu cadarnhaol. Ar gyfer Tasg 2, mae'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r lleoliad penodol yn yr astudiaeth achos. Dylai'r ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol o godau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut maent yn arwain y gweithwyr penodol yn y lleoliad.

Ar y cyfan, roedd y perfformiad yn dda y flwyddyn hon. Mae'n ymddangos bod ymgeiswyr a chanolfannau yn fwy cyfarwydd â chysyniadau allweddol a sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Hon oedd y bedwaredd flwyddyn o asesu uned 1.

Ar y cyfan, profodd yr uned hon gwmpas y fanyleb ac arweiniodd at ddangos rhywfaint o wybodaeth ragorol gan ymgeiswyr, ond cododd rhai materion mewn cofrestriadau y bydd angen mynd i'r afael â nhw cyn y gyfres nesaf.

Cafwyd rhai enghreifftiau rhagorol o ddealltwriaeth fanwl o egwyddorion gofal a sut i gymhwyso'r rhain yn ymarferol. Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farc rhesymol i dda yn yr asesiad er bod gwybodaeth rhai ymgeiswyr o gymhwyso egwyddorion gofal mewn cyd-destun yn gyfyngedig.

Roedd amrywiaeth o arddulliau o ddogfennaeth marcio ac asesu wedi'u cyflwyno gan ganolfannau ar gyfer cymedroli. Darparodd rhai canolfannau anodiadau rhagorol ar waith ymgeiswyr a oedd yn galluogi cymedrolwyr i weld sut roedden nhw'n cyfiawnhau penderfyniadau asesu. Roedd anodiadau canolfannau eraill yn brin iawn. Darparwyd nodiadau dosbarth gan fwy o ganolfannau ar gyfer y gyfres hon, a oedd yn plesio. Roedd rhai atebion, yn benodol ar gyfer tasg 2, yn cynnwys darnau o'r rhyngrwyd; nid yw hyn yn dderbyniol gan fod y fanyleb yn nodi mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain y dylid ei gyflwyno, a chyfrifoldeb y goruchwyliwr/tiwtor yw sicrhau dilysrwydd nodiadau dosbarth a gwaith yr ymgeiswyr.

Mae Tudalen 71 yn y fanyleb cymwysterau yn cynnwys nodyn atgoffa defnyddiol:
"Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau a ddefnyddir gan ymgeiswyr a'u cyflwyno i gael eu hadolygu fel rhan o'r broses gymedroli."
Cyfrifoldeb yr athro/aseswr yw adolygu'r nodiadau y mae ymgeiswyr yn bwriadu mynd â nhw i'r amgylchedd asesu gan sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion uchod. Os bydd gan yr athro/aseswr unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y nodiadau, dylai stopio'r asesiad rhag mynd rhagddo a dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar gyfer delio ag achosion o gamymddwyn a amheuir.

*"Rhaid i ymgeiswyr ddeall y bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau wneud y canlynol rhoi gwybod i CBAC am unrhyw amheuon o gamymddwyn os yw'r ymgeisydd wedi llofnodi ffurflen y datganiad dilysu."*

Wrth gyflwyno gwaith ymgeiswyr i'w gymedroli, byddai rhestr wirio ddefnyddiol isod yn fuddiol a byddai'n cynorthwyo'r broses gymedroli.

© WJEC CBAC Ltd.

<table>
<tr><th>Rhestr wirio cymedroli ar gyfer Uned 1:</th><th>Ticio'r rhestr wirio.</th></tr>
<tr><td>Mae'r daflen farciau wedi'i chwblhau'n llawn ac mae'r marciau'n adio i fyny'n gywir. (Dylid gwirio hyn ddwywaith).</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae'r gwaith wedi'i labelu â gwybodaeth gywir am – e.e., rhif yr ymgeisydd/enw'r ymgeisydd ac ychwanegwyd y pennawd a'r troedyn at bob tudalen i gadarnhau hyn.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae cofnodion dilysu mewnol wedi cael eu cyflwyno fel un ffeil i gadarnhau sicrwydd ansawdd ar gyfer Uned 1.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae datganiadau ymgeisydd/aseswr wedi'u llofnodi a'u dyddio. Ni ddylai datganiad aseswr fod wedi ei lofnodi na'i ddyddio cyn un yr ymgeisydd.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae taflen gofnod wedi'i chwblhau gan nodi'r oriau a gwblhawyd ar gyfer pob Tasg – gall hyn fod yn ddefnyddiol:<br><br><u>Taflen gofnodi – Ni allwch dreulio mwy nag</u> 20 AWR<br><br>
<table>
<tr><th colspan="2">Cofnod o'r oriau a dreuliwyd o'r asesiad di-arholiad.</th></tr>
<tr><td>Tasg</td><td>Dyddiad ac amser a dreuliwyd.</td></tr>
<tr><td>1 (A)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (B)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (C)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (CH)</td><td></td></tr>
<tr><td>1 (D)</td><td></td></tr>
<tr><td>2 (A)</td><td></td></tr>
<tr><td>2 (B)</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 1:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau terfynol – Tasg 2:</td><td></td></tr>
</table></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfrif geiriau ar waith yr ymgeisydd ar ôl pob cwestiwn.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae gwaith yr ymgeiswyr wedi'i gyflwyno fel un ffeil ar gyfer Tasg 1 ac un ffeil ar gyfer Tasg 2 neu wedi'i gyfuno'n un ffeil (gan gynnwys dalen asesu flaen gyda marciau a datganiadau). Peidiwch ag anfon cwestiynau unigol mewn ffeiliau ar wahân.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae nodiadau dosbarth wedi'u cynnwys ar ôl y ddalen cofnodi oriau.</td><td></td></tr>
<tr><td>Mae anodiadau yn amlwg ar bob cwestiwn i ddangos i'r ymgeisydd a'r cymedrolwr lle rhoddwyd marciau.</td><td></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd marcio ar draws y papurau, ar y cyfan, yn briodol. Roedd graddio'r ymgeiswyr yn briodol ar y cyfan, ac roedd marciau a roddwyd yn y band priodol ar y cyfan. Roedd rhai canolfannau wedi rhoi gormod o farciau ar gyfer cwestiynau penodol, yn enwedig Tasg 1 (b). Er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch ar gyfer Tasg 1(b), mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio sut mae disgwyl i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd arddangos a hybu gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn eu gwaith, a sut mae hyn o fantais i'r unigolyn y maen nhw'n gweithio gydag ef. Mae'n bwysig bod ***yr ymgeiswyr yn esbonio'r disgwyliad yn glir yn hytrach na rhoi enghreifftiau yn unig o'r astudiaeth achos a ddewiswyd.*** Trwy wneud hyn, bydd yr ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae'n bwysig bod y disgwyliad yn benodol i'r gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Myfyriodd llawer o'r ymgeiswyr ar gyfer Tasg 1 (d) ar sut y gallai gofal a chymorth feithrin cydberthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol, fodd bynnag, roedd y cwestiwn yn gofyn am adfyfyrio ar sut cafodd y dulliau a'r sgiliau eu defnyddio gan y gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd gyda rhai o'r ymgeiswyr yn rhoi disgrifiad cyffredinol o sut y gallai gofal a gweithwyr yn gyffredinol feithrin cydberthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu effeithiol.

Ar gyfer Tasg 2, enillwyd marciau uwch trwy gymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer priodol at y senario yn yr astudiaeth achos, ond nid oedd rhai ymgeiswyr wedi defnyddio'r ddeddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol perthnasol a oedd yn ymwneud â'r lleoliadau penodol yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Mae'n bwysig ar gyfer Tasg 2 y cyfeirir yn aml at y gweithwyr/lleoliadau.

**Tasg 1**

**(a)**

Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar y cwestiwn hwn. Roedd yn braf gweld bod llawer o'r ymgeiswyr wedi strwythuro eu hymatebion mewn fformat adroddiad, fel y nodwyd ym mriff yr aseiniad. Hefyd, roedd yn galonogol gweld bod yr ymgeiswyr wedi trefnu eu hymatebion yn dri pharagraff, gyda phob egwyddor gofal yn cael ei ddefnyddio fel pennawd ac wedi'i danlinellu, ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

Fodd bynnag, ni wnaeth rhai o'r ymgeiswyr gynnwys disgrifiad o'r egwyddor gofal penodol gan fynd yn syth i roi enghreifftiau. Hefyd, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi dyblygu enghreifftiau ar draws egwyddorion gofal gwahanol, er bod hyn yn llai aml yn y gyfres hon.

Er y gall egwyddorion gofal fod yn gyfnewidiol, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio ystod eang o wahanol enghreifftiau o'r astudiaeth achos. Drwy wneud hynny, byddent yn dangos dealltwriaeth fanylach o'r astudiaeth achos a ddewiswyd.

Ni wnaeth rhai o'r ymgeiswyr a ddewisodd egwyddorion fel *hybu cyfathrebu effeithiol* neu *hybu llesiant unigolion* ddisgrifio'r rhain yn llawn, gan gyfyngu dyfnder eu hymatebion.

Roedd yn braf gweld rhai o'r ymgeiswyr yn amlinellu sut roedd y tair egwyddor gofal gwahanol yn ategu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn benodol, ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)**

Roedd yn galonogol gweld bod y mwyafrif o ymgeiswyr wedi gallu nodi ffyrdd y disgwylir i weithwyr gofal a chymorth ddangos **gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.** Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebion yn ddigon **dwfn nac yn cynnwys esboniad**, sef ffocws y gair gorchymyn a oedd yn cael ei asesu.

Dechreuodd rhai o'r ymgeiswyr eu hymatebion â **diffiniad o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**, a oedd yn ffordd effeithiol o osod yr olygfa ac a oedd yn dangos cyswllt uniongyrchol â 1.5 o'r fanyleb. Roedd yn braf iawn gweld hyn.

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn nodi'n bod a wnelo gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau **â chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn,** a'i fod yn golygu *"cynorthwyo unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol drwy ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno, pryd a ble mae eu hangen arno, mewn modd fforddiadwy, diogel ac effeithiol."*

Drwy egluro'n amlwg hefyd beth yw **canlyniadau personol**, a nodi'r canlyniadau penodol y mae'r unigolion am eu cyflawni, gall yr ymgeiswyr ganolbwyntio eu hymateb ar y canlyniadau hyn. Er enghraifft, gallai'r ymgeiswyr esbonio sut y byddai'r ffyrdd penodol y caiff gofal ei ddarparu yn **helpu'r unigolyn i gyflawni ei nodau personol.**

I egluro:
- **Canlyniadau personol Aftab** oedd:
  - Teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn symud o amgylch ei gartref
  - Cadw mewn cysylltiad â'i ffydd a'i gymuned
  - Cadw ei annibyniaeth
- **Canlyniadau personol Angharad** oedd:
  - Meithrin cydberthnasau cadarnhaol a theimlo'n llai ynysig
  - Cael mwy o annibyniaeth mewn tasgau dyddiol
  - Bod pobl yn ei pharchu, yn ei chlywed ac yn cyfathrebu â hi mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion

Er mwyn cael marciau uwch, mae angen i'r ymgeiswyr **esbonio disgwyliadau'r** gweithwyr gofal a chymorth, **sut roeddent yn dangos** y rhain, **beth arall y gallent fod wedi'i wneud**, a'r **buddiannau i'r unigolyn** mewn perthynas â chyflawni eu canlyniadau personol. Llwyddodd rhai o'r ymgeiswyr i gysylltu eu hymatebion i **ddeddfwriaeth allweddol**, fel pum egwyddor allweddol **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.** Roedd hyn yn arbennig o galonogol a dylid ei annog mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, ni wnaeth pob ymgeisydd ganolbwyntio ar y **gweithwyr penodol** o'r astudiaeth achos, a oedd yn un o ofynion pwysig y cwestiwn hwn. Mewn rhai achosion, ni roddwyd digon o ddisgrifiad o'r **buddiannau i'r unigolyn.** Byddai ymatebion wedi cael eu hatgyfnerthu pe byddai'r ymgeiswyr wedi nodi'n glir **sut y byddai'r camau penodol** a gymerir gan y gweithwyr wedi **cefnogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.**

© WJEC CBAC Ltd.

**Dull a Argymhellir i'r Ymgeiswyr**

Un ffordd ddefnyddiol ac effeithiol o fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yw:

- Dechrau ag esboniad o 'ofal o ansawdd' – gan ddiffinio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn gosod yr olygfa
- Yna strwythuro'r ymateb mewn **4-5 adran glir,** gyda phob un yn canolbwyntio ar:
    - Y ffordd y disgwylir i'r gweithwyr ddangos gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (e.e., dull gweithredu seiliedig ar gryfderau)
    - Sut y dangoswyd hyn yn yr astudiaeth achos
    - Beth arall y gellid bod wedi'i wneud
    - Y budd i'r unigolyn mewn perthynas â'i ganlyniadau personol

Os bydd yr ymgeiswyr yn dilyn y strwythur hwn yn gyson yn eu hymateb, maent yn fwy tebygol o gyflawni'r **meini prawf manwl a thrylwyr sy'n ofynnol ar gyfer Band 4.**

© WJEC CBAC Ltd.

**(c)**
Atebwyd y cwestiwn hwn yn weddol dda, fodd bynnag, nid oedd rhai o'r ymgeiswyr bob amser yn canolbwyntio ar yr **her a wynebir gan y gweithwyr**, gan ganolbwyntio yn hytrach ar yr heriau a wynebwyd gan yr **unigolion sy'n cael eu cefnogi.** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i nodi **dwy her**, a oedd yn briodol ar gyfer y cwestiwn. Nododd **ymatebion a gafodd farciau uwch** yr her yn glir ar ddechrau eu hymateb ac aethant ymlaen i **esbonio pam y byddai hyn yn her i'r gweithiwr.** Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi gallu ehangu ar ôl iddynt nodi'r her. Er enghraifft, yn achos Aftab, nododd rhai o'r ymgeiswyr y byddai'r gweithwyr yn wynebu her oherwydd ei **anghenion lluosog** a oedd yn gywir, ond byddai wedi bod yn fwy effeithiol pe byddai'r ymgeiswyr hefyd wedi nodi **beth oedd yr anghenion hynny** ac esbonio mai'r her i'r gweithwyr oedd ei bod yn bosibl **nad oedd ganddynt wybodaeth arbenigol** i gefnogi anghenion mor gymhleth.

Un her arall a nodwyd yn aml oedd **blaenoriaethau tymhorol;** fodd bynnag, canolbwyntiodd rhai o'r ymgeiswyr ar pam y byddai hyn yn heriol i **Aftab**, yn hytrach nag i'r gweithwyr. Er enghraifft, nodwyd yn glir yn yr astudiaeth achos bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu yn ystod y **gaeaf**, felly roedd angen i'r ymgeiswyr archwilio **sut y gallai hyn fod yn heriol i'r gweithwyr** wrth gefnogi Aftab (e.e. anawsterau teithio, mwy o bwysau ar wasanaethau, risgiau iechyd uwch ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed). Nododd rhai o'r ymgeiswyr mai un o'r heriau sylweddol i'r gweithwyr oedd **bod Angharad yn gwrthod cymorth**, ond ni wnaethant ganolbwyntio'n glir nac esbonio pam y byddai hyn yn heriol i'r **gweithwyr.** Er enghraifft, gallai hyn fod yn heriol am fod gan y gweithwyr **ddyletswydd gofal** tuag at Angharad. Os bydd yn gwrthod cymorth, gallai arwain at risgiau fel **heintiau ar y croen, anesmwythder corfforol** neu **gymhlethdodau meddygol difrifol** ac mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar weithwyr i gydbwyso parchu ei hannibyniaeth a sicrhau ei diogelwch. Ni lwyddodd rhai o'r ymgeiswyr a sgoriodd yn is ar y cwestiwn hwn i ddisgrifio **sut y gellid goresgyn yr her** neu gwnaethant roi ymatebion cyfyngedig iawn. Er enghraifft, nid oedd nodi mai un ffordd o oresgyn y broblem yw “defnyddio technolegau newydd” yn ddigonol oni chaiff hynny ei esbonio'n fanwl a'i gymhwyso i'r astudiaeth achos penodol.

Wrth farcio'r cwestiwn hwn, dylai aseswyr sicrhau eu bod yn **nodi'n glir faint o farciau sydd wedi'u rhoi ar gyfer pob her ar wahân**, ac yna roi marc terfynol. Roedd yn brawf gweld bod y mwyafrif o'r canolfannau wedi cadw at y dull hwn.
Roedd hefyd yn galonogol gweld bod mwy o'r ymgeiswyr wedi defnyddio **terminoleg arbenigol** yn y gyfres hon wrth ddisgrifio ffyrdd y gallai'r gweithwyr oresgyn heriau. Fodd bynnag, roedd rhai o'r awgrymiadau yn rhy afrealistig, fel “dylai'r gweithiwr gyflogi mwy o staff gofal cymdeithasol” neu “dylai'r llywodraeth roi mwy o gyllid i nyrsys.” Nid yw'r rhain yn ddatrysiadau ymarferol na realistig ar lefel gweithiwr gofal unigol. Dylai'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar strategaethau realistig a phriodol y gallai'r **gweithiwr penodol yn yr astudiaeth achos** eu rhoi ar waith

© WJEC CBAC Ltd.

**(ch)**

Hwn oedd un o'r cwestiynau lle gwelwyd yr atebion gwannaf fel y gyfres ddiwethaf ond mae'r atebion yn gwella. Disgwylir i'r ymgeiswyr ddadansoddi tair egwyddor cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis a dulliau gweithredu eraill yng nghyd-destun yr astudiaeth achos. Y gair gorchymyn oedd **'dadansoddwch'** sef archwilio mater yn fanwl. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cymysgu'r tri therm i mewn i un paragraff nad oedd yn galluogi i drafod yr egwyddorion yn ddigon manwl; mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwahanu'r tri therm yn baragraffau ar wahân. Gwnaeth rhai ymgeiswyr hepgor rhai o'r egwyddorion, a olygai na allent gyrraedd y bandiau uwch. Disgwylir i'r ymgeiswyr ddadansoddi dulliau moesegol; lle y soniodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr am rai o'r dulliau roedd hyn gul o ran cwmpas ar y cyfan.

Un ffordd ddefnyddiol o wahaniaethu rhwng egwyddorion a dulliau moesegol iechyd yw:

| **Egwyddorion moesegol** | **Dulliau moesegol** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Dyletswydd gofal |
| Amrywiaeth | Dyletswydd gonestrwydd |
| Dewis | Penderfyniadau er budd pennaf |
| | Rheoli cyfrinachedd wrth rannu gwybodaeth, e.e., dilyn GDPR a WASPI |
| | Cefnogi llesiant meddwl a llesiant emosiynol |
| | Dilyn fframweithiau moesegol |
| | Rheoli'r ffordd y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu dyrannu (drwy egwyddorion gofal iechyd darbodus) |

Wrth ddadansoddi'r egwyddorion a'r dulliau, un ffordd ddefnyddiol o sicrhau dadansoddiad manwl yw bod yr ymgeiswyr yn disgrifio'r hyn a olygir gan yr egwyddor neu'r dull, trafod sut y cafodd ei chymhwyso neu ei gymhwyso yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd ac archwilio sut y gellid gwneud hynny. Hefyd, dylai'r ymgeiswyr lunio barn ynghylch sut mae'n effeithio ar ofal person-ganolog, yn gadarnhaol **ac** yn negyddol. Isod ceir adborth gan ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch, gan fynd i'r afael yn llwyr â'r gair gorchymyn “dadansoddwch”.

**Angharad**

Un o'r pwyntiau allweddol o astudiaeth achos Angharad oedd bod y gweithwyr yn parchu ei dewis. Llwyddodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch i ddadansoddi hyn yn uniongyrchol yn fanwl. Er enghraifft, llwyddodd yr ymgeiswyr i ddisgrifio ystyr “dewis”, ac i lunio barn resymol mewn perthynas â'r astudiaeth achos. Gwnaethant lwyddo i nodi bod Angharad wedi cael dewis ynghylch cael cawod, bath neu ymolchi ar ddiwrnod gwahanol. Llwyddodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch hefyd i ddadansoddi pam roedd y dewis hwn wedi helpu Angharad, a'r canlyniadau pe na chynigiwyd y dewis hwn. Er enghraifft, gallai arwain at broblemau iechyd fel drewdod corff neu heintiau ar y croen.

© WJEC CBAC Ltd.

**(d)**

Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda. Er mwyn cael y marciau uwch, roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr fyfyrio ar gyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol/ymddiriedaeth ar wahân. Roedd adroddiadau a oedd yn myfyrio ar y rhain gyda'i gilydd yn tueddu i golli ffocws a chyfeiriad ac felly rhoddwyd marciau is iddynt. Rhoddwyd marciau uwch i'r ymgeiswyr yr oedd eu hadroddiadau'n myfyrio'n benodol ar y sgiliau a'r dulliau a ddefnyddir gan y gweithwyr fel y dangosir yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Gwnaeth atebion mewn bandiau is ond amlinellu sut y gellid dangos cyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd cadarnhaol yn yr astudiaeth achos **heb drafod y sgiliau/sut y defnyddiwyd y rhain gan weithwyr**. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn ac wedi rhoi disgrifiad cyffredinol o ystyr perthnasoedd cadarnhaol/cyfathrebu effeithiol, er bod hyn yn llai amlwg yn y gyfres hon. Ni allai'r ymgeiswyr na wnaethant fyfyrio ar sut na allai'r sgiliau a'r dulliau hyn fodloni'r gofynion ar gyfer band 2, gan fethu â llunio 'casgliadau' a 'gwneud gwerthusiad' o'r sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y gweithwyr gofal a chymorth yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.

Un ffordd allweddol o gyflawni proses fyfyrio lefel uwch (Band 4) yn astudiaeth achos Aftab oedd pan lwyddodd yr ymgeiswyr i nodi bod y gweithwyr wedi dangos giliau cyfathrebu di-eiriau effeithiol ac wedi cymhwyso sgiliau rhyngbersonol mewn cyd-destun ymarferol. Nododd rhai ymgeiswyr y canlynol:

"Mae sawl achos yn yr astudiaeth achos lle dangosir sgiliau cyfathrebu effeithiol. Er enghraifft, pan mae Dylan yn holi Aftab am ei glyw, daw yn amlwg drwy eu sgwrs bod Aftab yn clywed yn well yn ei glust chwith. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol; pe na fyddai Dylan wedi cymryd yr amser i ofyn, gellid bod wedi tarfu ar yr asesiad neu gallai fod yn hirach gan nad yw Aftab yn gallu clywed cystal yn ei glust dde."

Mae'r paragraff hwn yn ddefnyddiol, fodd bynnag, roedd angen i'r ymgeisydd roi mwy o fanyldeb ynghylch **beth wnaeth y gweithwyr mewn gwirionedd**. Er enghraifft, gallai'r ymgeisydd fod wedi bod yn fwy penodol drwy nodi: *"Symudodd y gweithwyr er mwyn eistedd ar lefel Aftab, gan ganolbwyntio ar ei ochr chwith (yr ochr lle mae'n clywed orau), a chynnal cyswllt llygad."* Byddai hyn wedi dangos dull clir o gymhwyso sgiliau rhyngbersonol a dealltwriaeth fwy myfyriol o'r astudiaeth achos.

Un ffordd allweddol o ddangos proses fyfyrio fanwl a thrylwyr ar astudiaeth achos Angharad oedd pan fyfyriodd yr ymgeiswyr ar yr adeg y dywedodd Alison wrth Angharad y byddai'n gadael yr ystafell. Llwyddodd yr ymgeiswyr a ddangosodd yn glir fod Alison wedi gwneud hyn, ac a aethant ymlaen i werthuso pam roedd hyn yn arwyddocaol, i ddangos proses fyfyrio a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr. Gwnaeth rhai o'r ymgeiswyr bwyntiau ardderchog ynghylch y ffaith bod Alison wedi dweud wrth Angharad y byddai'n gadael yn eithriadol o ddefnyddiol, yn enwedig o ystyried amhariad Angharad ar ei golwg h.y. helpu i feithrin ymddiriedaeth, gan ddangos empathi a galluogi Angharad i deimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu. Hefyd, gwellodd ei hymdeimlad o ddiogelwch a rhoddodd gyfle iddi ofyn unrhyw gwestiynau terfynol neu fynegi unrhyw feddyliau olaf cyn i'r sgwrs ddod i ben.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**
**(a)**

Roedd yn braf gweld, ar gyfer y cwestiwn hwn, bod yr ymgeiswyr wedi dechrau eu hatebion drwy gyflwyno'r lleoliad lle'r oedd yr unigolyn yn cael gofal neu gymorth yn glir. Roedd hon yn agwedd allweddol ar y cwestiwn, gan fod angen i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar sut roedd deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol yn cael eu cymhwyso yn y lleoliad hwnnw. Llwyddodd nifer cynyddol o'r ymgeiswyr i ddiffinio ystyr deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol. Roedd yn arbennig o braf gweld bod lleiafrif o'r ymgeiswyr wedi esbonio'n glir i'r gweithwyr newydd bod deddfwriaeth yn fater datganoledig yng Nghymru – creodd hyn argraff dda! Mae hyn yn cysylltu'n agos â'r fanyleb, lle dylai dysgwyr wybod am effaith deddfwriaeth gyfredol a'i deall, gan gynnwys materion datganoledig ac is-ddeddfwriaeth.

Byddai'n galonogol gweld y dull hwn yn parhau mewn cyfres yn y dyfodol, gan ei fod yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y cwestiwn ac mae'n dangos i weithwyr newydd bod deddfwriaeth benodol yn berthnasol i Gymru.
Yn ystod y gyfres hon, canolbwyntiodd llai o'r ymgeiswyr ar y ddeddfwriaeth yn unig, a rhoddodd mwy ystyriaeth i bolisïau cenedlaethol hefyd. Ni allai'r ymgeiswyr a ganolbwyntiodd ar ddeddfwriaeth yn unig i gyrraedd y bandiau marciau uchaf. Mae'n bwysig y gall yr ymgeiswyr esbonio eu pwyntiau'n glir, er enghraifft, enwi'r ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol y maent yn cyfeirio ato, esbonio'n fyr pam y cafodd ei gyflwyno, diffinio termau allweddol o'r ddeddfwriaeth neu'r polisïau cenedlaethol, a chymhwyso'r rhain i'r lleoliad dan sylw. Dylai hyn orffen gyda sut mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau yn cefnogi gofal person-ganolog. Drwy wneud hyn, byddai gweithwyr newydd yn cael gwybodaeth ddefnyddiol.

Un rhan allweddol o'r cwestiwn hwn yw cymhwyso, gan ei fod yn gwestiwn AA2.
Un maes cyffredin lle gallai'r ymgeiswyr fod wedi mynd ymhellach oedd archwilio egwyddorion allweddol *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* a *Deddf Cydraddoldeb 2010.* Dim ond disgrifiad byr a roddodd rhai o'r ymgeiswyr o'r rhain, heb gymhwyso cysyniadau allweddol i'r lleoliad fel cyd-gynhyrchu, llais, dewis a rheolaeth, addasiadau rhesymol, nodweddion gwarchodedig a sut mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn cefnogi gofal person-ganolog.
Ni ddefnyddiodd rhai o'r ymgeiswyr ddeddfwriaeth berthnasol na pholisïau cenedlaethol mewn perthynas â'r lleoliadau penodol yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Er enghraifft, ni fyddai *Deddf Plant 2004* yn berthnasol i'r naill astudiaeth achos na'r llall yn y gyfres hon. Soniodd nifer bach o'r ymgeiswyr at *y Ddeddf Gofal*, nad yw'n berthnasol i'r gweithwyr yn y lleoliad hwn, gan fod y cwestiwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ar gyfer staff sy'n newydd i weithio yn ***Nghymru.***

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)**
Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i sgorio o leiaf hanner y marciau ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn *crynhoi;* nid oes angen i hyn fod yn eithriadol o fanwl, ond dylai gwmpasu amrywiaeth eang o bwyntiau er mwyn cyrraedd Band 4, sef y band marciau uchaf.
Roedd yn galonogol gweld bod yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd lefel uwch wedi defnyddio amrywiaeth eang o gysyniadau i ddangos sut mae'r codau yn arwain gweithwyr gofal, gan gynnwys termau fel *atebolrwydd, moeseg, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), cofrestru* a *chydymffurfiaeth.*
Yn astudiaeth achos Aftab, y lleoliadau oed cartref Aftab ei hun a'r ysbyty. Roedd yn cael ei gefnogi gan weithwyr penodol fel Dylan, Rheolwr Therapi Galwedigaethol Cymunedol y GIG a Diana, Gweithiwr Cymorth Cymunedol Gofal Iechyd. Yn astudiaeth achos Angharad, llety gwarchod oedd y lleoliad. Roedd yn cael ei chefnogi gan weithwyr penodol, Michelle a Morfydd, Gweithwyr Cymorth ac Alison, Gweithiwr Cymdeithasol. Roedd y ddau unigolyn hefyd yn cael eu cefnogi gan ofalwyr di-dâl (aelodau o'r teulu). Yn aml nid oedd yr ymgeiswyr a gafodd farciau is wedi nodi'r codau ymarfer neu ymddygiad proffesiynol penodol sy'n arwain y gweithwyr gofal yn yr astudiaethau achos a nodwyd. Roedd hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth; fodd bynnag, roedd hyn yn llai cyffredin yn y gyfres hon.

Mae'n bwysig nodi, **er mwyn cyrraedd Band 3** a dangos gwybodaeth sicr, bod yn rhaid cael cyfeiriad clir at o leiaf un cod ymddygiad neu ymarfer proffesiynol a enwyd yn gywir a oedd yn berthnasol i'r gweithiwr penodol yn yr astudiaeth achos, ynghyd ag esboniad o sut roedd y cod hwn yn arwain y gweithiwr. Mae'n bwysig rhoi'r dasg yn ei chyd-destun: y nod oedd rhoi gwybodaeth i staff sy'n newydd i weithio yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol bod aelodau newydd o staff yn gwybod union enwau'r codau ymarfer neu ymddygiad proffesiynol sy'n berthnasol i'r gweithwyr gofal yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd. Rhoddwyd marciau uwch i'r ymgeiswyr a enwodd ac a amlinellodd y codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol perthnasol, gofynion cofrestru'r gweithwyr gofal, a sut caiff y rhain eu cymhwyso yn ymarferol i'w harwain. Roedd yn braf gweld bod rhai o'r ymgeiswyr wedi dangos ymwybyddiaeth o'r cyrff rheoleiddio sy'n pennu'r gofynion cofrestru hyn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol.

Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi nodi enwau'r codau sy'n berthnasol i'r lleoliad ond nid oeddent wedi esbonio sut roedd y rhain yn arwain y gweithwyr. O ganlyniad, ni allent gyrraedd Band 2, gan nad oeddent wedi cynnwys digon o “wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r codau ymarfer/ymddygiad proffesiynol yn arwain y gweithwyr gofal wrth wneud eu gwaith yn y lleoliad yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd.”
Mae'n bwysig nodi y gellir rhoi marciau i'r ymgeiswyr am esbonio *ystyr* cod ymddygiad neu ymarfer proffesiynol. Fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr a roddodd ddiffiniad yn unig wedi'u cyfyngu i farc ym Mand 1.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd yn braf gweld bod rhai o'r ymgeiswyr wedi nodi'n glir pwy sy'n pennu'r codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r fanyleb: dylai dysgwyr wybod a deall sut mae **cyrff rheoleiddiol yn cefnogi aelodau drwy nodi'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol.** Llwyddodd yr ymgeiswyr a ehangodd ar hyn i drafod gofynion rheoliadol, er enghraifft, er mwyn parhau i ymarfer a chynnal eu cofrestriad, mae'n ofynnol i weithwyr gyflawni nifer penodol o oriau o DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus).

Dangoswyd hyn yn dda yn astudiaeth achos Angharad:

- *Bod yn Atebol am Wybodaeth a Sgiliau Proffesiynol:*
  Mae'r cod yn pwysleisio atebolrwydd gweithwyr i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Roedd Alison wedi trefnu hyfforddiant codi a chario ar gyfer Morfydd a Michelle, gan sicrhau eu bod yn cefnogi Angharad yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i DPP ac i gynnal safonau gofal uchel.

Hefyd, yn astudiaeth achos Aftab:

- cadwodd Dylan a Diana at hyn drwy nodi risgiau (e.e., peryglon cwympo) a chynnig addasiadau fel rheiliau gafael a sedd toiled uwch. Mae'r gweithredoedd hyn yn dangos eu gwybodaeth am ofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn adlewyrchu eu hymrwymiad i wella eu hymarfer drwy ddysgu a chymhwyso arferion gofal gorau.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 3

## Haf 2025

## UNED 2: FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES..

### Trosolwg o'r Uned

### Uned 2.1: Ffactorau sy'n Effeithio ar Dwf a Datblygiad Unigolion ar Bob Cam o'r Rhychwant Oes

Cwmpaswyd amrywiaeth o bynciau yn y gyfres hon, fel **effaith technoleg** ar dwf a datblygiad Meghan, gyda Meghan yn y cyfnod **oedolaeth ddiweddarach.** Archwiliwyd **camddefnyddio sylweddau** hefyd, a disgwyliwyd i ymgeiswyr ganolbwyntio ar **effaith tymor hir** camddefnyddio sylweddau ar ddatblygiad unigolyn.
Hefyd, aseswyd **effaith amgylchedd gwael** ar dwf a datblygiad unigolyn. Roedd rhai cwestiynau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio **sut y gellid mynd i'r afael â'r ffactorau hyn** er enghraifft, esbonio ffyrdd y gallai gweithwyr proffesiynol gefnogi plentyn sydd wedi cael **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** er mwyn hyrwyddo datblygiad iachach.

### Uned 2.2: Modelau sy'n Gysylltiedig â Ffactorau sy'n Effeithio ar Dwf a Datblygiad

Ymysg y modelau allweddol a aseswyd yn y gyfres hon roedd **Skinner, Piaget/Vygotsky, Maslow,** a damcaniaethau o'r **ddadl natur neu fagwraeth.** O ran damcaniaethau, rhai i'r ymgeiswyr sicrhau eu bod yn deall **cysyniadau sylfaenol** pob model.
Ar gyfer cwestiynau 2.2, er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos **rhywfaint o wybodaeth,** nid oedd y rhan fwyaf yn cynnwys digon o **ddyfnder a datblygiad.** Ymysg y materion cyffredin roedd **diffyg cysyniadau damcaniaethol allweddol** ac anallu i ddatblygu atebion yn effeithiol mewn cwestiynau arddull **AA3 (dadansoddi/gwerthuso).** Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn deall ac yn gallu trafod **cryfderau a gwendidau** modelau gwahanol yn eu cyd-destun.

### Uned 2.3: Dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch

Roedd y prif gwestiwn yn y papur hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr **archwilio cryfderau dulliau gwahanol** wrth hybu ac amddiffyn **gwydnwch Kevin.** Roedd Kevin wedi **colli ei bartner yn annisgwyl** ac roedd hefyd yn **camddefnyddio sylweddau.** Roedd angen i'r ymgeiswyr archwilio sut y gallai dulliau proffesiynol gwahanol gefnogi Kevin i ailadeiladu gwydnwch a gwella ei lesiant cyffredinol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cynnwys a brofwyd**

**Ar gyfer 2.1 (Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob rhan o'r rhychwant oes),** ymysg y cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arholiad roedd:

- Cwestiynau yn seiliedig ar syndrom Tourette a sut y gallai byw â'r syndrom effeithio ar ddatblygiad deallusol a chymdeithasol.
- Cwestiynau ar sut y gallai amgylchedd gwael effeithio ar ddatblygiad corfforol.
- Cwestiwn ar sut y gellid mynd i'r afael â ffactorau allweddol, er enghraifft, sut y gallai gweithiwr cymdeithasol annog teulu i greu ymlyniadau er mwyn mynd i'r afael ag effaith tymor hir profiad niweidiol yn ystod plentyndod.

**Ar gyfer 2.2 (modelau sy'n ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes)** y modelau allweddol a aseswyd yn ystod y gyfres hon oedd Skinner, Piaget/Vygotsky, Maslow a damcaniaethau o'r ddadl natur neu fagwraeth.

Pan fydd yr ymgeiswyr yn dysgu am 'natur a magwraeth' ym manyleb 2.2, byddai'n ddefnyddiol iddynt ddiffinio'r termau allweddol hyn, eu cymhwyso at ystod eang o sefyllfaoedd ac esbonio pa fodelau seicolegol sy'n gysylltiedig â natur a magwraeth. Gallai hyn fod yn weithgaredd torri'r iâ defnyddiol wrth gyflwyno modelau seicolegol er mwyn canfod a yw'r ddamcaniaeth yn fwy perthnasol i natur neu fagwraeth neu'r ddau hyd yn oed. Hefyd, gallai cysylltu â ffactorau ac enghreifftiau allweddol o adran 2.1 ddatblygu eu hymwybyddiaeth ymhellach.

Ar gyfer cwestiynau 2.2, ar y cyfan rhoddodd yr ymgeiswyr rywfaint o wybodaeth, ond ni wnaethant gynnwys digon o ddatblygiad yn eu hatebion, e.e., diffyg cysyniadau allweddol, neu fethu datblygu eu hymatebion mewn perthynas â chwestiynau AA3. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r gwahanol fodelau.

**Ar gyfer 2.3 (Dulliau i Hybu ac Amddiffyn Gwydnwch),** roedd un prif gwestiwn yn canolbwyntio ar unigolyn o'r enw Kevin. Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr archwilio cryfderau dulliau gwahanol y gallai gweithwyr iechyd proffesiynol eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch Kevin. Fodd bynnag, ni lwyddodd rhai o'r ymgeiswyr i archwilio'n llawn sut y gallai'r dulliau hyn gefnogi Kevin i roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddol ac i ymdopi â cholli ei bartner.

**Trosolwg cyffredinol ar draws yr uned**

- Dylai'r ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r adnoddau cymunedol sydd ar gael i unigolion gan fod hon yn rhan allweddol o fanyleb 2.1. Un ffordd ddefnyddiol i'r ymgeiswyr archwilio hyn yw iddynt feddwl am eu cymuned leol, llunio map a lliwio ac enwi'r llefydd lle gallai unigolyn fynd i gael cymorth. Yna gallai'r ymgeiswyr gyflwyno eu canfyddiadau yn ôl i'r dosbarth drwy esbonio'r cymorth, e.e. ble, sut a buddiannau'r cymorth hwn i dwf a datblygiad tymor hir yr unigolyn, gan gynnwys cysylltiadau i hybu ac amddiffyn ei wydnwch.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1 (a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn, gyda'r mwyafrif o'r ymgeiswyr yn nodi'n gywir bod Meghan mewn *cyfnod oedolaeth ddiweddarach*. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai o'r ymgeiswyr ddefnyddio'r cam bywyd cywir fel y nodwyd yn y maes llafur, gan gyfeirio at y termau fel *oedrannus* neu *oedolion hŷn*. Roedd yn bwysig i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r derminoleg gywir ar gyfer y cam bywyd.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda, ond nid oedd rhai o'r ymgeiswyr wedi bodloni gofynion y gair gorchymyn *'esboniwch'* yn llawn. Roedd yn bwysig i'r ymgeiswyr esbonio'r newidiadau emosiynol y gall Meghan fod yn eu hwynebu. Gan fod Meghan mewn cyfnod oedolaeth ddiweddarach, disgwyliwyd i'r ymgeiswyr nodi o leiaf ddau newid perthnasol, fel ymddeol a dirywiad corfforol, ac yna esbonio'r newidiadau hyn a sut maent yn effeithio ar ddatblygiad emosiynol. Soniodd rhai o'r ymgeiswyr am y menopos, ond ni chawsant farciau am hyn, gan nad yw'r newid hwn yn gysylltiedig â chyfnod oedolaeth ddiweddarach. Roedd yn dda gweld bod yr ymgeiswyr wedi dangos dealltwriaeth dda o'r newidiadau y gall Meghan eu hwynebu, fel dod yn fam-gu/nain, a sut y gallai hyn effeithio'n gadarnhaol ar ei datblygiad. Er enghraifft, esboniodd rhai o'r ymgeiswyr y gallai dod yn fam-gu/nain wella datblygiad emosiynol Meghan drwy roi ymdeimlad o bwrpas iddi a gwella ei hunanwerth wrth iddi gefnogi a chysylltu â chenhedlaeth newydd ei theulu.

**(c)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o'r ymgeiswyr yn ymwybodol bod y term *trawma* yn gysylltiedig â digwyddiad anghyfforddus neu ofidus a wynebwyd. Fodd bynnag, ni allai rhai o'r ymgeiswyr ehangu ar ystyr creiddiol trawma. Er enghraifft, ni wnaethant gynnwys pwyntiau fel:

- Gall trawma achosi effeithiau tymor hir, fel anawsterau emosiynol neu seicolegol.
- Gall trawma effeithio ar unigolion mewn sawl ffordd.
- Gall trawma effeithio ar unigolion o unrhyw oedran.
- Gallai enghraifft o ddigwyddiad trawmatig gynnwys profedigaeth, camdriniaeth neu ddamwain ddifrifol, er enghraifft.

Mae'n bwysig nodi ar gyfer cwestiwn diffiniad 2-farc, bod angen esboniad estynedig neu fanylion ychwanegol er mwyn cael y marciau llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

**(ch)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn. Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i gael y marciau uchaf drwy awgrymu un dull y gallai'r staff yn y ddeintyddfa ei ddefnyddio i gyfyngu ar drawma Meghan. Roedd angen i'r ymgeiswyr nodi beth y gallai'r staff ei wneud ac yna ehangu'n gryno ar sut y byddent yn gwneud hyn neu sut y byddai'n helpu i gyfyngu ar y trawma. Er enghraifft, os byddai ymgeisydd yn ysgrifennu "cynnig ail ffordd o gofrestru yn y ddeintyddfa" ac yna ehangu drwy nodi "byddai'r derbynnydd yn ei chofrestru wrth y ddesg", byddai hyn yn ddigon i gael y marciau llawn.

**(d)** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i sgorio marciau am y cwestiwn hwn; fodd bynnag, nid oedd rhai ohonynt wedi ateb y cwestiwn neu nid oeddent yn ymwybodol o unrhyw gysyniadau sy'n gysylltiedig â Skinner, fel *cyflyru gweithredol, cosbi* ac *atgyfnerthu.* Roedd yn dda gweld rhai o'r ymgeiswyr yn cymhwyso damcaniaeth Skinner yn uniongyrchol i sefyllfa Meghan, gan greu cysylltiad clir rhwng arbrawf llygod mawr Skinner a pham y gall Meghan fod yn amharod i ddefnyddio technoleg oherwydd canlyniad negyddol blaenorol.

**(dd)** Ni lwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i gael marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn, yn bennaf am nad aethant i'r afael yn llawn â'r gair gorchymyn *'aseswch'* y mae angen ei werthuso'n fanwl, fel y nodwyd mewn cyfres flaenorol. Disgwyliwyd i'r ymgeiswyr asesu'r honiad y gall y defnydd o dechnoleg gefnogi twf a datblygiad Meghan. Roedd hyn yn cynnwys ystyried **agweddau cadarnhaol a negyddol** ar y ddadl a sicrhau bod pob elfen ar ei datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol yn cael ei chwmpasu.

Hefyd, roedd angen i'r ymgeiswyr gynnwys pwyntiau ar **pam ei bod yn bosibl nad yw technoleg yn cefnogi** twf a datblygiad Meghan. Llwyddodd rhai o'r ymgeiswyr i gymhwyso eu gwybodaeth yn effeithiol i gyd-destun Meghan, gan wneud cysylltiadau â'i **hoedran a phroblemau posibl â'i golwg.** Er enghraifft, nododd rhai mai un anfantais i ddefnyddio technoleg yw y gall fod yn treulio gormod o amser yn edrych ar sgrin, a allai olygu bod ei golwg yn gwaethygu, problem sy'n peri pryder penodol i oedolion mewn **cyfnod oedolaeth ddiweddarach**, sy'n golygu bod hwn yn ddull cymorth llai effeithiol.

Llwyddodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch i roi enghreifftiau clir yn eu hatebion, fel technoleg ategol a'r cyfryngau cymdeithasol, a ychwanegodd gyd-destun gwerthfawr. Cyfeiriodd rhai o'r ymgeiswyr hefyd at *Ddamcaniaeth Ymddieithrio* Cumming a Henry i atgyfnerthu eu hasesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.2 (a)** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i roi dau ddigwyddiad bywyd anrhagweladwy y gall Kevin eu hwynebu, heblaw am farwolaeth annisgwyl ei bartner. Fodd bynnag, lleiafrif o'r ymgeiswyr a roddodd hyn fel digwyddiad bywyd anrhagweladwy. Roedd ambell un o'r ymgeiswyr wedi drysu rhwng digwyddiadau bywyd anrhagweladwy a digwyddiadau bywyd rhagweladwy. Er enghraifft, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi nodi priodi a mynd i'r brifysgol nad ydynt yn ddigwyddiadau bywyd anrhagweladwy. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn darllen y cwestiwn a'r datganiad yn ofalus. Dylai'r digwyddiadau bywyd fod yn wirioneddol anrhagweladwy ac yn realistig i unigolyn 46 oed h.y. rhywbeth y gallai rhywun o oedran Kevin fod wedi'i brofi yn rhesymol. Nododd rhai o'r ymgeiswyr "symud i gartref gofal" nad oedd yn realistig i Kevin.

**(b)** Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn a llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ennill marciau. Dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth bod camddefnyddio sylweddau yn cynnwys defnyddio sylweddau mewn ffordd niweidiol neu beryglus, eu defnyddio'n amhriodol neu fod yn gaeth iddynt. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i roi enghreifftiau fel bod yn gaeth i gyffuriau neu byliau o oryfed. Ehangodd rhai o'r ymgeiswyr eu hymatebion drwy esbonio y gall fod yn anodd i unigolion roi'r gorau iddi oherwydd symptomau diddyfnu. Datblygodd eraill eu hatebion ymhellach drwy esbonio pam y gall rhai unigolion fod yn camddefnyddio sylweddau, er enghraifft, fel dull o ymdopi er mwyn delio â digwyddiadau bywyd negyddol

**(c)** Gwnaeth yr ymgeiswyr yn dda yn y cwestiwn hwn gyda'r mwyafrif y llwyddo i gael marciau llawn drwy roi dau arwydd a allai awgrymu bod Kevin yn camddefnyddio sylweddau.

**(ch)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda, gydag amrywiaeth o'r ymgeiswyr yn llwyddo i nodi dau ffactor cymdeithasol a all effeithio ar benderfyniad Kevin i barhau i gamddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, rhoddodd rhai o'r ymgeiswyr ymatebion amwys fel "*pobl o'i amgylch";* roedd angen i hyn fod yn fwy penodol i gael marciau. Hefyd, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi drysu rhwng ffactorau cymdeithasol ac **effeithiau** cymdeithasol camddefnyddio sylweddau.

**(d)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r ymgeiswyr wedi esbonio'n glir **effaith tymor hir** y ffaith bod Kevin yn camddefnyddio sylweddau ar ei ddatblygiad. Mae'n bwysig pan fydd ymgeiswyr yn trafod datblygiad, eu bod yn cwmpasu **pob agwedd ar ffactorau** corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. Un ffordd ddefnyddiol i'r ymgeiswyr wahaniaethu rhwng effeithiau tymor byr a thymor hir camddefnyddio sylweddau yw drwy enghreifftiau penodol. Er enghraifft, yn y tymor byr, efallai y bydd Kevin yn teimlo'n chwil ac yn sâl, sef yr effeithiau corfforol. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn yn canolbwyntio ar effeithiau **tymor hir.** Byddai ateb cryfach yn ehangu ar hyn, er enghraifft: gallai camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd arwain at sgiliau cydsymud neu farn wael, gan gynyddu'r risg o ddamwain, yn enwedig wrth yrru neu yn y gwaith. Gallai hyn arwain at anaf difrifol, fel parlys, gan arwain at fod angen cymorth meddygol am weddill ei oes.

© WJEC CBAC Ltd.

**(dd)** Fel arfer, roedd yr ymgeiswyr yn ymwybodol o ddulliau gwahanol, ond ni wnaethant fodloni gofynion y gair gorchymyn *“archwiliwch”*. Llwyddodd rhai o'r ymgeiswyr i ddisgrifio'r term **gwydnwch**, ond ni wnaethant esbonio'n glir sut y byddai dulliau penodol yn cefnogi gwydnwch Kevin i oresgyn ei sefyllfa. Roedd Kevin wedi colli ei bartner yn annisgwyl ac roedd yn camddefnyddio sylweddau. Llwyddodd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau uwch i archwilio'n llawn amrywiaeth o ddulliau gwahanol, gan gynnwys cryfderau sut y byddai'r dulliau penodol hyn yn cefnogi Kevin i ymdopi â'i brofedigaeth a'r ffaith ei fod yn camddefnyddio sylweddau. Roedd rhai o'r ymatebion yn rhy gyffredinol ac nid oeddent yn cyfeirio'n uniongyrchol at amgylchiadau Kevin, a gyfyngodd ar allu'r ymgeiswyr i gael marciau uwch. Mae'n bwysig, pan fydd yr ymgeiswyr yn cwmpasu deilliant dysgu 2.3, eu bod yn cysylltu'n glir yn ôl i'r **ffactorau yn 2.1,** gan ddangos sut y byddai pob dull yn hybu ac yn amddiffyn gwydnwch mewn perthynas â'r ffactorau hynny. Gall defnyddio **enghreifftiau o fywyd go iawn** fod yn strategaeth ddefnyddiol i atgyfnerthu ymatebion. Trafododd rhai o'r ymgeiswyr wendidau dulliau gweithredu, nad oedd yn ofynnol ac na roddwyd marciau ar ei gyfer, gan fod y cwestiwn yn gofyn yn benodol iddynt archwilio sut roedd y dulliau'n hybu gwydnwch.

Un enghraifft o baragraff a ddatblygwyd ar gyfer un dull:

Gallai gweithgarwch hamdden fel **ymuno â thîm pêl-fasged lleol** gefnogi gwydnwch Kevin yn sylweddol ar ôl iddo golli ei bartner a'r ffaith ei fo dyn camddefnyddio sylweddau. Efallai bod Kevin yn teimlo'n unig ers colli ei bartner. Gall cymryd rhan mewn chwaraeon tîm fel pêl-fasged ei helpu i ailadeiladu rhwydweithiau cymdeithasol a meithrin cydberthnasau newydd, gan leihau ei unigrwydd a rhoi cymorth emosiynol iddo.

Gall cyfranogiad rheolaidd roi hwb i'w ysbryd a'i hunanhyder. Gall bod yn rhan o dîm roi ymdeimlad o berthyn a phwrpas iddo, sy'n ffactorau amddiffynnol wrth adeiladu gwydnwch emosiynol ar ôl galar a thrawma.

Mae pêl-fasged yn cynnwys gweithgarwch cardiofasgwlar, a all helpu iechyd corfforol a lleihau lefelau straen y corff. Mae ymarfer corff rheolaidd hefyd yn rhyddhau endorffinau (ysgogwyr hwyliau naturiol) a all helpu i leihau dibyniaeth Kevin ar sylweddau er mwyn ymdopi.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.3** **(a)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddo i restru dwy ffordd y gall syndrom Tourette gyflwyno ei hun yn Simon. Nododd nifer mawr o'r ymgeiswyr diciau corfforol a lleisiol yn gywir. Fodd bynnag, rhoddodd rhai ymatebion amwys fel “methu cyfathrebu'n effeithiol”. Er y gall hyn fod yn gysylltiedig, nid oedd yn ddigon penodol ar gyfer Simon. Roedd angen rhoi enghreifftiau penodol i gael y marciau.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda, gydag amrywiaeth o ymgeiswyr yn cael y marciau yn y bandiau uwch. Roedd yn braf gweld bod rhai o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i wahaniaethu'n effeithiol rhwng yr effeithiau cymdeithasol a deallusol. Hefyd, roedd yn galonogol nodi bod sawl un o'r ymgeiswyr wedi tynnu sylw at effaith gadarnhaol syndrom Tourette ar Simon. Er enghraifft, nododd un y gallai ei gyflwr gynnig cyfleoedd iddo esbonio'r syndrom i'w gyd-ddisgyblion, gan wella ei sgiliau cymdeithasol. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r ymgeiswyr a ddangosodd wybodaeth a dealltwriaeth ei bod yn debygol y byddai Simon yn cael cynlluniau dysgu unigol i gefnogi ei addysg. Mae hyn yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ynghylch arferion addysgol cynhwysol. Gwnaeth rhai o'r ymgeiswyr ddatganiadau rhy gyffredinol, fel awgrymu y byddai'r athrawon yn “mynd yn ddig” â Simon. Er bod hon yn senario bosibl, byddai dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion cynhwysedd a'r strategaethau cymorth penodol i fyfyrwyr â syndrom Tourette wedi atgyfnerthu eu hymatebion. Ymhellach, cafodd rhai o'r ymgeiswyr drafferth i esbonio eu pwyntiau'n llawn ac yn fanwl. Yn hytrach, gwnaethant ganolbwyntio'n bennaf ar effeithiau emosiynol syndrom Tourette, nad oedd yn ffocws i'r cwestiwn.

**(c)** Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Er bod rhai o'r ymgeiswyr wedi dangos ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau Piaget a Vygotsky, cafodd eraill drafferth wrth eu cymhwyso i gam datblygu plentyn wyth oed. Roedd yn braf gweld bod rhai o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i gymhwyso'r damcaniaethau'n uniongyrchol, er enghraifft, drwy nodi'n gywir y byddai plentyn wyth oed yng nghyfnod gweithredu diriaethol Piaget. Esboniodd yr ymgeiswyr hyn fod plant ar y cyfnod hwn yn dechrau meddwl yn fwy rhesymegol (e.e. cyfeirio at yr arbrawf sgwrs), yn dangos mwy o empathi ac yn dangos llai o fyfïaeth. Mewn perthynas â Vygotsky, roedd yn galonogol gweld bod rhai o'r ymgeiswyr yn deall y byddai sgaffaldio o fudd i blentyn wyth oed ac y byddai'n datblygu'n fwy effeithiol o fewn parth datblygu procsimol. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi mynegi eu syniadau'n anghywir. Er enghraifft, nododd sawl un y gallai plentyn wyth oed feddwl yn haniaethol. Fodd bynnag, dylent fod wedi egluro, yn ôl Piaget, fod plant yr oedran hwn yn y cyfnod gweithredu diriaethol, lle maent yn dechrau meddwl yn fwy rhesymegol am sefyllfaoedd diriaethol. Fel arfer, yn ddiweddarach y bydd meddwl haniaethol yn dod i'r amlwg, yn ystod y cyfnod gweithredu ffurfiol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.4 (a)** Cafodd y cwestiwn hwn ymatebion cymysg. Nododd sawl ymgeisydd yn gywir bod plentyndod yn cwmpasu ystod oedran 3–12 oed. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi drysu rhwng yr ystodau oedran, ac ysgrifennodd eraill “oedolaeth”, sy'n awgrymu eu bod wedi cam-ddeall y cwestiwn. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r camau bywyd gwahanol a'u hystodau oedran cyfatebol fel yr amlinellir yn y fanyleb:

- **Babandod:** 0-2 oed
- **Plentyndod:** 3-12 oed
- **Y glasoed:** 13-19 oed
- **Oedolaeth:** 20-64 oed
- **Oedolaeth ddiweddarach:** 65+ oed

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda, gyda llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddo i nodi sut y gall amgylchedd cartref gwael effeithio ar ddatblygiad corfforol unigolyn. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymgeiswyr gysylltu eu hesboniadau â'r unigolion y soniwyd amdanynt ym môn y cwestiwn. Er enghraifft, nododd amrywiaeth eang o'r ymgeiswyr leithder a llwydni fel ffactorau amgylcheddol gwael gan awgrymu'n gywir y gallai'r rhain arwain at asthma a heintiau ar y frest. Fodd bynnag, gallent fod wedi bod yn gliriach wrth esbonio y byddai hyn yn debygol o effeithio ar y plant oherwydd eu systemau imiwnedd tanddatblygedig. Dechreuodd rhai o'r ymgeiswyr drafod agweddau eraill ar ddatblygiad, fel datblygiad cymdeithasol, e.e. awgrymu efallai na fyddai'r plant yn gwahodd ffrindiau drosodd oherwydd yr amgylchedd gwael. Fodd bynnag, nid aeth hyn i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith gorfforol

**(c)** Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i gael marciau llawn am y cwestiwn hwn; fodd bynnag, ni wnaeth rhai ohonynt esbonio'n glir effeithiau tymor hir byw â salwch meddwl mewn oedolaeth. Mewn rhai achosion, roedd yr effeithiau a ddisgrifiwyd yn fwy tymor byr. Er enghraifft, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi nodi'n gywir efallai na fydd gan unigolyn yr hyder i fynd i'r gwaith, ond ni wnaeth ddatblygu'r pwynt hwn ymhellach, fel esbonio sut y gallai hyn arwain at golli swydd, a all arwain at dlodi neu ddyled yn y dyfodol. Canolbwyntio rhai o'r ymgeiswyr ar yr effaith ar y plant ond nid dyna oedd y cwestiwn penodol ac ni roddwyd marciau am hynny. Rhai o'r diffygion cyffredin ar gyfer y cwestiwn hwn oedd bod rhai o'r ymgeiswyr wedi gwneud datganiadau mwy cyffredinol, fel tybio y byddai plant Yousef yn cael eu cymryd oddi arno. Mae hyn yn adlewyrchu barn ystrydebol o'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r prosesau cywir sydd dan sylw wrth gefnogi teuluoedd.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.5** **(a)** Ar adegau roedd yr ymgeiswyr wedi'i chael hi'n anodd cael marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn am na allent amlinellu credoau nac arferion crefyddol penodol. O ganlyniad, nid oedd modd iddynt ddatblygu eu pwyntiau'n llawn. Gallai'r mwyafrif o'r ymgeiswyr amlinellu effaith gadarnhaol, ond heb gysylltu hyn â chredoau crefyddol, ac roedd hyn yn rhan annatod o'r cwestiwn. Er hyn, cawsant farciau. Cafodd yr ymgeiswyr a nododd, er enghraifft, y gall Carly weddïo mewn rhai crefyddau, sy'n gwneud iddi deimlo nad yw ar ei phen ei hun, y 2 farc llawn.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda iawn, gyda'r mwyafrif o'r ymgeiswyr yn cael marciau yn y band uwch. Gwnaethant lwyddo i ddisgrifio'n glir sut y gall y ffaith na all Carly weithio effeithio ar ei thwf a'i datblygiad.

**(c)** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i esbonio sut y gall profiad o salwch mewn oedolaeth, fel canser Carly, effeithio ar ei datblygiad cymdeithasol. Fodd bynnag, methodd llawer o'r ymgeiswyr esbonio profiad arall y gall Carly fod wedi'i chael mewn oedolaeth a sut y byddai hyn wedi effeithio ar ei datblygiad cymdeithasol. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn darllen y cwestiwn yn ofalus, am ei fod yn defnyddio'r ffurf luosog **"profiadau"**, gan nodi y dylid trafod mwy nag un. Hefyd, roedd y cwestiwn yn werth **4 marc**, sy'n awgrymu bod angen rhoi mwy nag un pwynt. Llwyddodd yr ymgeiswyr a gafodd y marciau uchaf i esbonio **dau brofiad** y gall Carly fod wedi'u cael, fel ei diagnosis o ganser a'r profiad posibl o **gael morgais.** Ni wnaeth rhai o'r ymgeiswyr esbonio eu henghreifftiau yn ddigon manwl gan nodi'n syml y byddai'n effeithio ar ei datblygiad cymdeithasol yn gadarnhaol neu'n negyddol, heb esbonio'n glir **sut na pham.**

**(ch)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn gymharol dda. Roedd amrywiaeth o'r ymgeiswyr wedi dangos ymwybyddiaeth bod **Damcaniaeth Ddyneiddiol Maslow** yn cynnwys **hierarchaeth o anghenion**, a llwyddodd sawl un i esbonio'r anghenion hyn. Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r ymgeiswyr wedi gallu **cymhwyso'n glir sut y byddai gweithwyr iechyd proffesiynol yn diwallu'r anghenion hyn** nac esbonio **sut y byddai hyn yn cefnogi hunanhyder Carly.** Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi **drysu rhwng damcaniaeth Marlow a damcaniaeth Rogers**, a oedd yn golygu na allent gyrraedd y bandiau marciau uwch. Dim ond nifer bach o'r ymgeiswyr a lwyddodd i **archwilio Damcaniaeth Ddyneiddiol Maslow yn fanwl**, a phrin iawn oedd y rhai a aeth i'r afael ag unrhyw **wendid neu gyfyngiadau** o ran y ddamcaniaeth i gefnogi hunanhyder Carly. Tynnwyd sylw at y gair **"archwiliwch"** yng **nghyfres mis Ionawr Gaeaf 2025**, a nododd yr adroddiad y dylai'r ymgeiswyr gynnwys **gwendidau neu werthusiad beirniadol** wrth ymateb i gwestiynau gan ddefnyddio'r term gorchymyn hwn. Roedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i nodi angen penodol, ei esbonio ac yna archwilio **sut y byddai'n cefnogi hunanhyder Carly** yn fwy tebygol o gael marciau uwch yn y bandiau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.6 (a)** Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi drysu rhwng agweddau corfforol datblygiad a ddisgwylir mewn plentyn 9 mis oed â meysydd datblygu eraill, fel iaith a datblygiad gwybyddol. Fodd bynnag, llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i gael marciau ar y cwestiwn hwn.

**(b)** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i enwi dau gyflwr tymor hir sy'n gysylltiedig â phlentyn sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi cyflyrau fel gorbryder ac iselder yn gywir. Fodd bynnag, rhoddodd rhai o'r ymgeiswyr symptomau neu achosion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn hytrach na chyflyrau penodol, nad oedd yn bodloni gofynion y cwestiwn. Hefyd, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi defnyddio talfyriadau fel *ADHD* heb enw'r cyflwr yn llawn fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Mae'n bwysig nodi bod y gair gorchymyn "*enwch"* yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr roi enw penodol y cyflwr yn llawn. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi camddeall y cwestiwn ac wedi rhoi enghreifftiau o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fel camddefnyddio sylweddau yn y cartref, a mathau o gamdriniaeth.

**(c)** Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr 1 marc am y cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn enwi Bowlby fel y damcaniaethwr a bwysleisiodd bwysigrwydd ymlyniadau cynnar.

**(ch)** Llwyddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i restru ffyrdd y gallai'r gweithiwr cymdeithasol annog Keith a Natalie i ffurfio ymlyniadau â Belle. Fodd bynnag, ni lwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i esbonio eu pwyntiau yn ddigon manwl. Er enghraifft, nododd rhai o'r ymatebion, "annog Keith, Natalie a Belle i dreulio mwy o amser â'i gilydd", ond heb ymhelaethu ar sut y gellid cyflawni hyn fel drwy sesiynau darllen ar y cyd, a sut y byddai hyn yn cefnogi datblygiad tymor hir Belle. Mae amser darllen ar y cyd yn hyrwyddo agosrwydd emosiynol rhwng y gofalwr a'r plentyn. Hefyd, mae defnyddio cyswllt llygad, tôn llais cynnes ac agosrwydd corfforol yn helpu i atgyfnerthu ymlyniad diogel.

© WJEC CBAC Ltd.

## UNED 3: HYBU HAWLIAU UNIGOLION AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES

Yng nghyfres Uned 3, roedd y Canolfannau a'r ymgeiswyr wedi ymgymryd â thasg yr asesiad di-arholiad yn bendant ac yn glir. Cyflwynodd yr ymgeiswyr gyflwyniadau, gan ymgorffori delweddau, trawsnewidiadau sleisiau, trosleisiau a dyluniad sleidiau a arweiniodd at waith o safon dda iawn.

- Roedd yr ymgeiswyr wedi dewis eu grŵp penodol o unigolion yn uniongyrchol o'r fanyleb yn bennaf. Roedd y dewis hwn yn eu galluogi i ganolbwyntio ar yr amcanion asesu a bodloni gofynion y dasg yn effeithiol, gan gyrraedd y bandiau marciau uwch. Ar y cyfan, rhoddodd y canolfannau farciau a oedd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth clir rhwng ymgeiswyr a oedd wedi'u paratoi'n dda a'r rhai yr oedd angen cymorth ychwanegol i ymgymryd â'r dasg a'i chwblhau'n llawn.
- Cyflwynwyd y cyflwyniadau mewn fformatau a chyfuniadau amrywiol, gan gynnwys ffeiliau PowerPoint gyda throsleisiau wedi'u hymgorffori, sgriptiau wedi'u teipio a chyflwyniad fideo wedi'u recordio. Roedd y dewisiadau hyn yn sicrhau y gallai'r ymgeiswyr gyflawni gofyniad y dasg i 'greu podlediad, cyflwyniad neu fideo'.
- Wrth roi marciau ar ben uchaf y raddfa, mae'n hanfodol y rhoddir digon o dystiolaeth ategol. Er enghraifft, nododd rhai anodiadau fod manylion ychwanegol wedi'u rhannu gan yr ymgeisydd yn ystod ei gyflwyniad byw; mewn achosion o'r fath, byddai'r cymedrolwyr yn disgwyl i fideo neu recordiad sain ategol fod wedi'u cynnwys ym mhortffolio Uned 3 i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd. Os na chafodd y cyflwyniad ei roi yn y dosbarth na'i recordio fel troslais, dylai fod tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol yn y sleidiau PowerPoint a/neu sgript ategol. Mae hefyd yn hanfodol bod Canolfannau'n rhoi sylw agos i'r gair gorchymyn ym mhob cwestiwn i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn bodloni gofynion pob tasg.
- O safbwynt gweinyddol, roedd y rhan fwyaf o'r Canolfannau wedi lanlwytho a chyflwyno gwaith yr ymgeisydd yn gywir. Er hyn, awgrymir y dylid cyfuno ffeiliau mewn cyn lleied o ddogfennau â phosibl i symleiddio'r broses gymedroli ac er budd y Ganolfan a'r ymgeisydd. Mae hefyd yn bwysig nodi'n glir y dosbarthiad marciau ar gyfer cwestiynau (b a d) ar ddalen y clawr blaen ac yng ngwaith yr ymgeisydd. Mae hyn yn helpu i gyfeirio cymedrolwyr tuag at y dystiolaeth berthnasol ac i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**(a)** Ymatebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn effeithiol i'r cwestiwn hwn, gan ddangos cydbwysedd cryf rhwng trafod prif anghenion a hawliau'r grŵp a ddewiswyd, ynghyd â'u gofynion gofal a chymorth. Ymchwiliwyd i'r ymatebion yn dda ar y cyfan, gan dynnu sylw at amrywiaeth eang o anghenion a hawliau a chanolbwyntio ar agweddau ymarferol cymorth unigol. Roedd rhai o'r ymgeiswyr hefyd wedi ymgorffori **safbwyntiau damcaniaethol**, a chafodd hyn ei gydnabod gan y Canolfannau; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi **na roddir marciau mwyach** ar gyfer yr elfen hon ac na ddylid ei chynnwys mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

**(b)** Mae cwestiwn B, sef yr elfen a gafodd y marciau uchaf o dasg yr asesiad di-arholiad, yn cynnwys 22 o farciau ac mae wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae AA1 yn cyfrannu uchafswm o chwe marc ac, ar y cyfan, cafodd ei gwblhau i safon uchel. Er bod rhai o'r Canolfannau wedi ymdrin ag AA1 yn gyfannol, aeth y mwyafrif i'r afael â'r adran hon ar wahân, gan grynhoi iechyd a llesiant mewn perthynas â'r grŵp a ddewiswyd ganddynt. **Argymhellir y dylai'r Canolfannau barhau i gyflwyno'r cwestiwn hwn mewn dwy ran benodol, gan gyd-fynd yn glir â'r amcanion asesu a'r fanyleb**. Dylai'r aseswyr hefyd sicrhau eu bod yn anodi pan eir i'r afael â phob AA a sut y cafodd marciau eu rhoi, er mwyn cefnogi tryloywder yn ystod y broses gymedroli. Ymgysylltodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn feddylgar â'r cwestiwn, yn arbennig yn AA3, lle gwnaethant archwilio ffactorau sy'n berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt, a gefnogwyd gan waith ymchwil.

**(c)** Dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn drwy nodi amrywiaeth o rwystrau perthnasol sy'n benodol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt. Er bod rhai hefyd wedi trafod **strategaethau i oresgyn y rhwystrau hyn, rhaid pwysleisio na roddir marciau ar gyfer yr elfennau hyn mwyach** yng Nghwestiwn C ac na ddylid eu cynnwys mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

**(ch)** Roedd yr ymatebion yn dangos bod gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth a'i rôl yn cefnogi hawliau'r grŵp a ddewiswyd ganddynt. Mewn rhai achosion, roedd yr ymgeiswyr wedi cyfeirio at ddeddfwriaeth na chafodd ei rhestru'n benodol yn y fanyleb; fodd bynnag, cafodd y rhain eu cymhwyso'n briodol ac roeddent yn berthnasol i'r cyd-destun, felly rhoddwyd marciau ar eu cyfer.

**(d)** Ymdriniodd yr ymgeiswyr â'r cwestiwn hwn â gwaith ymchwil, gan lwyddo i nodi amrywiaeth o fentrau a strategaethau sy'n berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt yn unol ag AA1. Fodd bynnag, roedd achosion lle'r oedd Canolfannau ac ymgeiswyr wedi drysu rhwng mentrau a strategaethau ac argymhellion ar gyfer hybu hawliau (AA3). Gallai'r Canolfannau **gyfeirio'n uniongyrchol at y mentrau a'r strategaethau sy'n berthnasol i'r grŵp a ddewiswyd ganddynt, y ceir enghreifftiau ohonynt yn y fanyleb (3.4).** Roedd yr ymatebion cryfach ar gyfer y cwestiwn hwn yn gwahaniaethu'n glir rhwng menter a strategaeth a rhoddwyd argymhellion wedi'u cefnogi'n dda o dan AA3 ar gyfer sut mae'r rhain yn cyfrannu at hybu hawliau unigol ar gyfer y grŵp a ddewiswyd ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**UNED 4: DEALL SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL**

**Haf 2025**

**Sylwadau Cyffredinol**
Dylid canmol y Canolfannau am gyflwyno gwaith yr ymgeiswyr mewn modd amserol, gyda'r rhan fwyaf o'r samplau wedi'u lanlwytho yn y fformat cywir ac wedi'u hategu gan y ddogfennaeth ofynnol. Roedd y rhan fwyaf o'r aseswyr a'r ymgeiswyr wedi cwblhau a llofnodi'r ffurflenni dilysu yn gywir, ac roedd ffurflenni sylwadau'r Canolfannau wedi'u cwblhau'n dda ar y cyfan, gan dywys cymedrolwyr yn effeithiol drwy bob sampl.

Gwnaeth rhai canolfannau wallau clercio mewn marciau a gyflwynwyd ar IAMIS o'i gymharu â thaflenni marciau, ac nid oedd marciau dalen flaen rhai ymgeiswyr yn cyfateb i farciau anodi ar y gwaith. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni datganiad dilysrwydd ymgeisydd ac aseswr eu cwblhau a'u llofnodi'n briodol.

Roedd yn braf arsylwi ar y ffaith bod rhai canolfannau wedi ymateb yn effeithiol i'r argymhellion a wnaed mewn cylchoedd blaenorol. Roedd y gwelliannau'n cynnwys anodiadau aseswyr cliriach, cymhwyso amcanion asesu (AAau) yn well, defnyddio fformatau digidol strwythuredig ar gyfer ffeithluniau a rhoi mwy o sylw i brotocolau cyfeirio priodol.

Fodd bynnag, mae angen gwella sawl ardal o hyd er mwyn cefnogi tegwch, hygyrchedd ac uniondeb prosesau asesu ym mhob canolfan:

- **Strwythur cyffredinol, terminoleg a berfau gorchmynnol**
  Atgoffir canolfannau y dylid cyflwyno'r gwaith ar gyfer cwestiynau (a) i (c) fel un erthygl sy'n addas ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol ac nid fel traethawd neu draethodau byr unigol. Yn yr un modd, er mwyn bodloni gofynion ysgrifennu erthygl sy'n addas ar gyfer y sector, dylid annog ymgeiswyr ar y lefel hon i ddefnyddio terminoleg ffurfiol (e.e. “ysgarthion" yn lle "cachu") drwyddi draw, gan gynnwys defnyddio ymadroddion cyfoes fel "byw gyda..." yn hytrach na "dioddef gyda…”. Lluniodd llawer o'r ymgeiswyr erthygl a ffeithluniau a ysgrifennwyd yn y person cyntaf; dylid atgoffa'r ymgeiswyr, gan eu bod yn cynhyrchu gwaith sy'n addas ar gyfer cylchgrawn sector, y dylent ysgrifennu yn y trydydd person. Gall fod yn ddefnyddiol i ganolfannau adolygu gofynion y geiriau gorchymyn gydag ymgeiswyr yn y dyfodol, yn enwedig y ferf "aseswch" i ateb cwestiwn (c).
- **Cyfrif geiriau**
  Un pryder sy'n codi dro ar ôl tro yw'r anghysondeb o ran cadw at y terfyn o 3,000 o eiriau (yn cynnwys yr erthygl a'r ffeithlun). Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi rhagori ar y terfyn hwn, o gannoedd o eiriau weithiau. Gallai'r anghydbwysedd hwn olygu bod ymgeiswyr dan anfantais ac amharu ar gymaroldeb y perfformiad. Dylid atgoffa'r Canolfannau ei bod yn hanfodol cadw at y terfyn geiriau er mwyn sicrhau tegwch ac y dylid trin hyn fel amod asesu sylfaenol. Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gynnwys cyfrif geiriau ar ddiwedd eu herthygl a'u ffeithlun i gefnogi tryloywder a hunanfonitro.

© WJEC CBAC Ltd.

- **Gwirio Mewnol**
  Er nad yw'n ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, yn aml mae presenoldeb prosesau dilysu mewnol yn cyd-fynd â marciau mwy cywir a dull mwy cyson o gymhwyso'r cynllun marcio. Dylai'r Canolfannau ystyried yn gryf roi gweithdrefnau cymedroli mewnol ar waith, gan gynnwys marcio sampl o waith dysgwyr ddwywaith ac ymgymryd â deialog proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bandiau marciau yn cael eu dehongli'n gyson.
- **Cyflwyniad a strwythur ffeiliau**
  Derbyniwyd y cyflwyniadau mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys PDF, dogfennau Word, ffolderi wedi'u sipio a ffeiliau PowerPoint. Er y croesewir hyblygrwydd o ran fformatau digidol, rhaid rhoi blaenoriaeth i eglurder a hygyrchedd. Roedd rhai o'r cyflwyniadau'n cynnwys sawl ffeil neu dudalennau allan o drefn, sy'n golygu eu bod yn ddiangen o anodd i'r cymedrolwyr eu trin. Argymhellir y dylid casglu'r gwaith ar gyfer tasgau (a) i (c) mewn un PDF wedi'i labelu'n glir lle y bo modd, gyda rhifau tudalennau wedi'u cynnwys a phenawdau/is-benawdau wedi'u defnyddio i nodi trawsnewidiadau rhwng adrannau ac un ffeil PDF ar wahân ar gyfer tasg (ch).
- **Fformat a dyluniad ffeithluniau**
  Mae ffeithluniau a gyflwynir yn Word neu mewn fformatau o arddull traethodau yn achos pryder. Diben y dasg ffeithluniau yw asesu gallu'r ymgeisydd i gyfleu gwybodaeth am iechyd yn weledol ac yn gryno. Dylid annog yr ymgeiswyr i lunio ffeithlun tudalen o hyd gan ddefnyddio meddalwedd fel un PowerPoint neu Google Slide, PDF wedi'i lawrlwytho o Canva, neu Publisher. Nid yw cyflwyniadau sy'n cynnwys gormod o destun neu sawl sleid yn bodloni'r briff ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd i'r dysgwyr ddangos creadigrwydd, eglurder a sgiliau cyfathrebu gweledol.
- **Cyfeiriadau ac uniondeb academaidd**
  Caniateir i ymgeiswyr gael mynediad i'r rhyngrwyd er mwyn ymchwilio i'r cyflyrau yn yr ysgogiadau, ac felly, mae'n arfer da annog ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau cyfeirnodi. Roedd y defnydd o gofrestrau cyfeirio yn amlwg yn y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau; fodd bynnag, roedd dyfyniadau o fewn y testun wedi'u cymhwyso'n anghyson. Dylid annog yr ymgeiswyr i ddefnyddio confensiynau academaidd cyson wrth ddyfynnu o ffynonellau, yn arbennig mewn tasgau ymchwil. Dylid atgoffa'r ymgeiswyr hefyd eu bod nhw a'r asesydd yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cyfeirnodi'n unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd yn eu gwaith ar y daflen datganiad ymgeisydd ac athro. Er na arsylwyd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o lên-ladrad, roedd sawl cyflwyniad yn cynnwys deunydd a oedd yn debyg iawn i ffynonellau o'r rhyngrwyd heb briodoliad clir, yn arbennig ar gyfer cwestiwn (ch), y ffeithlun.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Yn gyffredinol, roedd y gwaith a gyflwynwyd ar gyfer samplu yn dangos dilyniant rhesymegol ar gyfer cwestiynau (a) i (c).

**Cwestiwn (a):** Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o barlys yr ymennydd, y cyflwr a ddefnyddiwyd yn y deunydd ysgogi y flwyddyn hon. Roedd yn amlwg bod yr ymatebion cryfaf yn amlinellu achosion a gategoreiddiwyd yn darddiadau cynenedigol, amenedigol ac ôl-enedigol. Roedd yr ymgeiswyr hyn wedi defnyddio terminoleg feddygol gywir a soffistigedig yn aml i archwilio sut y gall ffactorau amrywiol (e.e. trawma genedigaeth, heintiau i'r fam, genedigaeth cyn amser) arwain at niwed i'r ymennydd sy'n datblygu. Yna gwnaethant gysylltu'r achosion hyn â chanlyniadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol i'r unigolyn. Yn aml, roedd ymatebion band uchel wedi ystyried yr effaith ar reoli symudiadau, lleferydd, prosesu synhwyraidd a chydsymud ac wedi cysylltu'r effeithiau hyn yn uniongyrchol i weithgareddau bywyd pob dydd fel cyfathrebu, gofal personol ac ymgysylltu cymdeithasol. Gwahaniaethodd yr ymgeiswyr hyn hefyd yn dda rhwng effeithiau tymor byr a tymor hir, gan gynnig dadansoddiad haenog o sut mae'r cyflwr yn esblygu dros amser a'i oblygiadau i annibyniaeth, cyflogaeth, addysg ac iechyd meddwl. I'r gwrthwyneb, roedd ymatebion yn y bandiau canolig ac is yn tueddu i restru symptomau ac effeithiau heb roi digon o esboniad na'u cysylltu'n ôl i'w hachosion. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cyfuno effeithiau tymor byr a thymor hir heb wahaniaethu'n glir rhyngddynt ac roedd eraill wedi defnyddio iaith anffurfiol a oedd yn tynnu oddi wrth y proffesiynoldeb a ddisgwylir ar Lefel 3. Gwelwyd rhestrau pwyntiau bwled, disgrifiadau amwys (e.e., “efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd”), a phroblemau gramadegol hefyd mewn ymatebion â pherfformiad is.

**Cwestiwn (b):** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol iawn. Ar y pen uchaf, cyflwynodd y dysgwyr ddisgrifiadau clir a chynhwysfawr o strategaethau ymarferol a chyfannol wedi'u teilwra i unigolion sy'n byw â pharlys yr ymennydd. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad i ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, cymorth lleferydd ac iaith, technolegau cynorthwyol, dulliau seiliedig ar gryfder a fframweithiau cymorth emosiynol. Yn galonogol hefyd, roedd sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'u cynnwys, fel Parlys yr Ymennydd Cymru a Bobath, a chafodd eu rolau eu disgrifio'n gywir ac yn berthnasol. Lle'r oedd yr ymatebion yn ddiffygiol, yn aml roedd hyn am fod dryswch rhwng atal a lleihau risg. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio'n anghywir ar ofal cyn-geni, asid ffolig ac ymddygiadau'r fam yn ystod beichiogrwydd. Er bod y rhain yn ystyriaethau iechyd y cyhoedd pwysig, nid ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer lleihau risg ar gyfer unigolion sydd eisoes yn byw â'r cyflwr, fel y nodwyd yn y deunydd ysgogi. Yn aml, roedd yr ymatebion o'r band canolig yn cynnwys strategaethau priodol ond wedi methu esbonio sut roedd yr ymyriadau hyn yn cefnogi iechyd a llesiant mewn synnwyr cyfannol (e.e., cwmpasu canlyniadau emosiynol a chymdeithasol, nid dim ond rhai corfforol). Roedd eraill wedi cyflwyno strategaethau fel rhestr neu naratif heb eu cysylltu'n ôl i'w diben nac anghenion unigol. Dylid atgoffa'r ymgeiswyr fod disgrifio strategaeth hefyd yn cynnwys amlinellu ei diben, ei heffaith a'i chymhwysiad ymarferol. Byddai annog dysgwyr i gynnwys enghreifftiau ac ystyried dimensiynau emosiynol a chymdeithasol llesiant yn gwella ansawdd yr ymatebion yn sylweddol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn (c):** Gwelwyd rhywfaint o'r ysgrifennu mwyaf craff yn y gyfres yn yr adran hon. Roedd yr ymgeiswyr a gafodd y marciau uchaf wedi mynd i'r afael â'r ferf orchmynnol ‘aseswch’ yn uniongyrchol ac wedi dangos dealltwriaeth ardderchog o'r ystod o ofal a chymorth sy'n ofynnol gan y ddau unigolyn sydd â pharlys yr ymennydd a'u teulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymorth ehangach. Roedd yr ymgeiswyr hyn wedi integreiddio modelau iechyd a llesiant ag eglurder a diben, gan eu cymhwyso i senarios bywyd go iawn er mwyn gwerthuso strategaethau gofal gwahanol. Dylid canmol yr ymgeiswyr hefyd am gysylltu i unedau eraill yn y cymhwyster ac i ddeddfwriaeth allweddol, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwnaeth rhai o'r dysgwyr ddefnydd soffistigedig o hierarchaeth anghenion Maslow ac o ddulliau cynllunio person-ganolog i asesu sut y gall gwasanaethau gefnogi gofal cyfannol. Yn aml, roedd yr ymatebion yn y band is yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol eu natur. Weithiau, disgrifiodd yr ymgeiswyr hyn y modelau heb eu cymhwyso i'r senario neu ni wnaethant lwyddo i asesu effeithiolrwydd strategaethau gwahanol. Roedd sawl ymateb yn canolbwyntio'n llwyr bron ar yr unigolyn, heb gynnwys anghenion y cylch ehangach (teulu, ffrindiau, gofalwyr), sy'n un o ofynion clir y cwestiwn. Oherwydd hyn, cyfyngwyd ar eu gallu i gael marciau uwch.

**Cwestiwn (ch):** Roedd y ffeithlun a gyflwynwyd mewn ymateb i'r dasg hon yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd a fformat. Roedd yr ymatebion cryf yn dangos creadigrwydd, defnydd da o gynllun, ac roeddent yn cynnwys esboniad cryno ond cywir o bwyntiau allweddol yn ymwneud â meningitis bacterol. Roedd y rhain yn cynnwys nodi ei fod yn haint bacterol systemig, gan amlinellu'r chwe dolen yn y cylch trosglwyddo (cyfrwng, cronfa, porth gadael, modd trosglwyddiad, porth mynediad ac organeb letyol agored i haint), ac ystyried yr effaith tymor hir bosibl, fel byddardod, amhariad niwrolegol neu fethiant organ. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi gwella eu ffeithluniau â delweddau, cynlluniau lliw a blychau data cryno a oedd yn cyfleu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol mewn modd difyr. Mae hyn yn cyd-fynd â diben y dasg i gyfleu negeseuon iechyd yn glir ac yn broffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd nifer sylweddol o'r cyflwyniadau yn bodloni'r gofynion.

Roedd rhai yn debyg i draethodau neu daflenni ffeithiau â pharagraffau hir a dim strwythur gweledol clir. Roedd eraill yn cynnwys gormod o destun neu wedi'u cyflwyno mewn fformatau nad oeddent yn addas ar gyfer ffeithluniau, fel dogfennau Word wedi'u sganio. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cynnwys gwybodaeth am feirysau neu opsiynau triniaethau, nad oeddent yn rhan o'r dasg ac a arweiniodd at ddefnydd dianghenraid o gyfrif geiriau. Er mwyn sicrhau gwelliant yn y dyfodol, caiff Canolfannau eu cynghori i gefnogi dysgwyr i feithrin sgiliau cyflwyno digidol ac i ddefnyddio dulliau dylunio priodol i gyflwyno gwybodaeth yn weledol. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o waith yr ymgeiswyr wedi'i farcio'n gywir gan ganolfannau. Mae'r cynllun marcio yn defnyddio dull 'ffit orau', a dylid cwmpasu pob pwynt marcio mewn band marciau er mwyn dyfarnu band. Er enghraifft, byddai gwaith gyda'r rhan fwyaf o bwyntiau ym Mand 3 ond byddai cwpl ym Mand 4 yn cael eu marcio ar ben uchaf Band 3.

© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Rhaid cadw at y cyfrif geiriau o 3,000 er mwyn sicrhau tegwch. Dylid nodi'r cyfrif geiriau yn glir ar waith yr ymgeisydd.
- Dylid cyflwyno pob erthygl yn arddull erthygl cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol (nid fel erthyglau) a dylid cyflwyno pob ffeithlun fel dogfennau un dudalen sy'n ddifyr yn weledol.
- Dylai cyflwyniadau ddilyn trefn resymegol ag is-benawdau'n cyd-fynd â phob tasg (ach).
- Yng nghwestiwn (c), rhaid i'r dysgwyr gymhwyso modelau iechyd a llesiant yn fanwl ac asesu eu perthnasedd yn hytrach na dim ond eu disgrifio.
- Dylid annog y defnydd o ddulliau fel un sleid PowerPoint neu Google, neu Canva ar gyfer ffeithluniau; nid ystyrir bod dogfennau Word yn briodol ar gyfer dylunio ffeithluniau.
- Dylid annog yr ymgeiswyr i gynnwys dyfyniadau o fewn y testun a rhestr cyfeiriadau lawn i ddangos ymarfer academaidd da ac osgoi gorddibyniaeth ar ddeunydd ffynhonnell.
- Mae dilysu mewnol yn ymarfer da sy'n cefnogi proses asesu gyson.

© WJEC CBAC Ltd.

**Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**(Cyfres Haf 2025)**

**UNED 5: CEFNOGI UNIGOLION SYDD MEWN PERYGL I GYFLAWNI'R CANLYNIADAU MAEN NHW'N DYMUNO EU CAEL**

Trosolwg o'r Uned

Dyma'r drydedd gyfres ar gyfer yr uned hon ers iddi gael ei hasesu drwy asesiad di-arholiad a gweithiodd y Canolfannau'n dda i ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd a dulliau i ymateb i'r dasg. Ers symud i ddefnyddio asesiad di-arholiad, gwelwyd cynnydd yn y nifer sy'n ymgysylltu â'r tasgau ac mae'r dysgwyr wedi defnyddio cyfleoedd yr astudiaethau achos i ddangos eu gwybodaeth. Ar y cyfan, roedd lefel y gwaith a'r ddealltwriaeth yng nghyfres yr haf hwn o safon dda a llwyddodd yr ymgeiswyr i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r gwahanol ddeilliannau dysgu. Mae'n amlwg bod y Canolfannau wedi ymgysylltu â'r tasgau yn dda ac roedd sawl enghraifft o waith ardderchog.

Ar y cyfan, roedd lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth ac roedd yr ymgeiswyr yn gallu cysylltu hynny â'r unigolyn yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd ganddynt. Llwyddodd yr ymgeiswyr i gymhwyso eu gwybodaeth am yr uned i'r astudiaethau achos gwahanol a defnyddiwyd amrywiaeth eang o ddulliau.

Mae'r asesiad di-arholiad yn cynnwys 2 dasg, y gyntaf yn ymwneud â chyflwyno nodiadau achos ar unigolyn a ddewiswyd ac asesodd y dasg hon 5.1, 5.2 a 5.5. Ar gyfer y dasg hon bu'r dysgwyr yn gweithio mewn amodau rheoledig, heb fynediad i'r rhyngrwyd ac roeddent yn gallu defnyddio nodiadau a baratowyd ymlaen llaw. Dylid cynnwys y nodiadau hyn fel rhan o unrhyw ddeunydd sy'n cael ei lanlwytho i IAMIS, ynghyd â gwaith yr ymgeisydd, dogfennau asesu, datganiad dysgwyr a thaflen amser. Defnyddiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o ddulliau ar gyfer y dasg hon, yn amrywio o fformat adroddiad traddodiadol o nodiadau achos i ddefnyddio meddalwedd wahanol i gyflwyno eu nodiadau fel sleidiau PowerPoint neu Google. Lle y defnyddiwyd sleidiau neu PowerPoint, roedd y mwyafrif wedi ymhelaethu'n ddigonol â nodiadau ychwanegol ac wedi dangos dealltwriaeth dda.

Mae'r ail dasg yn ymwneud â 5.3 a 5.4 a chaniateir mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer y dasg hon er mwyn cynorthwyo'r ymgeiswyr i greu cynllun gofal ar gyfer yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Roedd amrywiaeth o fformatau yn y cwestiwn, ond roedd y mwyafrif wedi defnyddio fformat sleidiau, a defnyddiwyd Canva hefyd. Roedd y ddau fformat hyn yn ddulliau priodol o gyflwyno'r wybodaeth. Yng nghwestiwn 2a, roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth yn unig, nid codau ymarfer nac ymddygiad, gan gyfyngu ar eu gradd ar y cwestiwn hwnnw. Roedd hyn yn well o lawer o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond mae'n dal i fod yn bwynt i Ganolfannau ei nodi er mwyn sicrhau y gall ymgeiswyr gyrraedd pob ffin gradd.

Gwelwyd amrywiaeth o arddulliau a dulliau marcio ar draws y Canolfannau. Roedd sawl enghraifft o ymarfer da lle'r oedd y Canolfannau wedi anodi'r gwaith, wedi dangos ble y bodlonwyd y meini prawf ac wedi rhoi cyfiawnhad ar gyfer y band marciau priodol. Gwelwyd enghreifftiau clir hefyd o dystiolaeth o gymedroli mewnol ac ystyrir bod cyflwyno tystiolaeth o'r broses hon gyda'r asesiad yn ymarfer da.

Roedd pob Canolfan wedi lanlwytho ei gwaith erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno, ac roedd y mwyafrif o'r Canolfannau wedi lanlwytho'r holl ddogfennau angenrheidiol mewn fformat hawdd ei ddefnyddiol, gyda'r holl ddatganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi a'u dyddio.

© WJEC CBAC Ltd.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1 (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi dangos lefel dda o wybodaeth yn yr adran hon ac roeddent wedi gallu cyfeirio at nifer o ffactorau a oedd yn cyfrannu at y risgiau yr oedd yr unigolion yn eu hwynebu. Llwyddodd yr ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth a gwmpesir yn yr uned i'r astudiaeth achos a ddewiswyd ganddynt. Enillodd llawer o'r ymgeiswyr sgoriau da am y cwestiwn hwn gan roi esboniad clir, ac roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau is wedi canolbwyntio ar nodi neu ddisgrifio'r ffactorau heb roi unrhyw esboniad. Mae hefyd yn bwysig bod cysylltiad amlwg rhwng y ffactorau hyn a'r unigolyn a'u bod yn ffactorau yn y gorffennol. Aeth lleiafrif o'r ymgeiswyr ati i ateb y cwestiwn hwn trwy roi trosolwg o ffactorau posibl, heb gyfeirio at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt.

**(b)** Ymatebodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn ac roeddent yn gallu amlinellu'r risgiau presennol yn glir. Rhoddodd lleiafrif o'r ymgeiswyr atebion manwl, ond oherwydd eu bod ond yn canolbwyntio ar 2 ffactor, roeddent wedi'u cyfyngu i gyrraedd band marciau band 3 sy'n nodi y dylai'r ymateb, 'dangos ystod o wybodaeth a dealltwriaeth gywir' felly byddai disgwyl y byddai 3 neu fwy o risgiau'n cael eu trafod. Fodd bynnag, ar y cyfan, ymdriniwyd â'r cwestiwn hwn yn dda iawn a dangoswyd proses glir o gymhwyso gwybodaeth.

**(c)** Ar y cyfan, ymdriniwyd â'r cwestiwn hwn yn dda; dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth glir gan roi disgrifiad da o ffactorau gwahanol a all effeithio ar hawliau defnyddwyr gwasanaeth ac roeddent yn gallu cysylltu'n glir â'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio mwy ar ba hawliau y dylai'r unigolyn eu cael, nid ffactorau sy'n effeithio ar ei hawliau. Roedd hyn yn llai aml o lawer na'r gyfres flaenorol ac roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi deall ffocws y cwestiwn. Er bod dealltwriaeth o ba hawliau y dylai fod gan yr unigolyn yn rhan bwysig o'r ateb, dylai'r ffocws fod wedi bod ar y ffactorau sy'n effeithio ar yr hawliau hynny. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cysylltu'r wybodaeth hon yn dda iawn â'r unigolion.

**(ch)** Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda rhai o'r ymgeiswyr yn rhoi ymateb rhagorol, ond nid oedd rhai o'r ymgeiswyr yn gallu cymhwyso'r wybodaeth mor effeithiol at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Cwestiwn AA2 yw hwn, sy'n canolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, felly roedd yr ymgeiswyr yn y band uwch wedi esbonio'r ffactorau a'u cymhwyso'n glir at yr unigolyn a ddewiswyd ganddynt yn y presennol. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu trafod ffactorau posibl ond nid oeddent yn eu cysylltu nac yn eu cymhwyso at yr unigolyn yn yr astudiaeth achos.

**(d)** Gallai'r ymatebion a gyrhaeddodd y band marciau uwch adnabod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol penodol a oedd yn berthnasol i'w hunigolyn ac roeddent yn gallu trafod dulliau gwahanol y gellid eu defnyddio i hyrwyddo cynhwysiant, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir. Fodd bynnag, rhoddodd eraill drosolwg eithaf cyffredinol o'r hyn y gallai gweithwyr ei wneud mewn ffordd amhenodol ac felly roedd yr ymatebion yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth bod yr ymgeiswyr wedi ymgysylltu'n well â'r cwestiwn hwn o gymharu â chyfresi blaenorol, ac roedd y Canolfannau yn y mwyafrif o achosion yn gywir yn y broses o fandio ymatebion yr ymgeiswyr yn briodol

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

**Cw.2 (a)** Gwelwyd rhai ymatebion da ar gyfer y cwestiwn hwn a oedd yn ymdrin â'r ystod o ddeddfwriaeth, codau ymarfer a chodau ymddygiad, fodd bynnag, cyfyngodd lleiafrif o'r ymgeiswyr ar y radd y gallent ei chyflawni trwy beidio â thrafod codau ymarfer neu ymddygiad. Er mwyn cyrraedd band marciau 2 neu'n uwch, dylai'r ymgeisydd, 'gyfeirio rhywfaint at ddeddfwriaeth a chodau ymarfer/codau ymddygiad'. Felly ni all ymgeiswyr nad ydynt yn cyfeirio at godau ymarfer/ymddygiad ennill dim byd uwch na band marciau 1.

**(b)** Rhoddodd rhai o'r ymgeiswyr asesiad manwl o'r gwahanol arferion iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallant ddiogelu eu hunigolyn. Roeddent yn gallu dadansoddi pa mor effeithiol oedd yr arferion a rhoi enghreifftiau clir. Fodd bynnag, ni roddodd rhai o'r dysgwyr ddatblygiad sylweddol ar yr arferion ac roedd achosion lle'r oedd hyn am nad oedd yr ymgeisydd wedi cyfeirio at yr unigolyn a ddewiswyd ganddo.

Yn gryno, roedd hon yn gyfres gadarnhaol lle llwyddodd yr ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn glir a'u cymhwyso i'r astudiaethau achos. Gwelwyd amrywiaeth eang o waith, ond roedd y mwyafrif o'r dysgwyr wedi ymgysylltu â thasg yr asesiad di-arholiad ac wedi deall yr hyn oedd yn ofynnol. Roedd y marciau ar draws y Canolfannau yn amrywiol o ran y broses o anodi, ond roedd y mwyafrif o'r Canolfannau yn gyson â'r lefelau asesu priodol.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Cynghorir y Canolfannau i barhau i roi digon o anodiadau er mwyn cyfiawnhau'r marciau a roddwyd, gan dyllu sylw at yr Amcanion Asesu (AAau) drwy waith yr ymgeisydd. Gall hyn fod o gymorth â'r broses gymedroli.
- Dylai'r Canolfannau sicrhau eu bod yn lanlwytho'r nodiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer tasg 1 a'r log o oriau
- Yng nghwestiwn 1a mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn cyfeirio at ***ffactorau o'r gorffennol*** sy'n cyfrannu at risg, ac mae cwestiwn 1b yn canolbwyntio ar ***ffactorau presennol.***
- Ar gyfer cwestiwn 2a, er mwyn i'r ymgeiswyr gyrraedd yr amrediad o fandiau marciau, mae angen iddynt drafod deddfwriaeth a chodau ymarfer
- Ar y cyfan, roedd y broses o gymhwyso at yr astudiaethau achos yn amlwg a dylid llongyfarch yr ymgeiswyr a'r Canolfannau am eu gwaith caled.

© WJEC CBAC Ltd.

**Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**(Cyfres Haf 2025)**

**Uned 6 ADRODDIAD**

Hwn yw'r trydydd adroddiad ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae'r mwyafrif o'r Canolfannau wedi dilyn gofynion canllawiau gorfodol CBAC ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r sector (100 awr) i gwblhau'r asesiad dan reolaeth yn llwyddiannus. Roedd rhai canolfannau yn annog eu dysgwyr i ymgymryd â dau leoliad profiad gwaith, a oedd yn arfer da. Hefyd, rhoddwyd ystod o brofiadau ymgysylltu iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol i'r ymgeiswyr megis gwybodaeth am gwnsela a deallusrwydd emosiynol, hyfforddiant cymorth cyntaf, gwybodaeth am yrfaoedd yn y sectorau, ac ymweliadau â gwahanol leoliadau a gwasanaethau.

Cymerodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ran mewn lleoliadau/gwasanaethau lleoliad gwaith priodol, megis mewn cartrefi gofal preswyl, gwasanaethau gofal dydd i oedolion, wardiau ysbyty a gwasanaethau gofal cartref. Fodd bynnag, cafodd nifer o ymgeiswyr eu rhoi o hyd mewn adrannau dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd, colegau a meithrinfeydd, nad ydynt yn lleoliadau derbyniol ar gyfer y rhaglen hon. Mae manyleb y cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol hwn yn amlinellu'r lleoliadau/gwasanaethau priodol yng nghanllawiau CBAC ar gyfer uned 6. Mae rolau rheng flaen a swyddogaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedi'u nodi yn adran 6.1 o'r fanyleb, nad ydynt yn cynnwys penaethiaid, athrawon na chynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, os caiff yr ymgeiswyr eu rhoi mewn lleoliadau addysgol, dylent ddewis rolau iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig fel nyrs ysgol neu seicolegydd addysgol. Yn aml, nid oedd ymgeiswyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau/gwasanaethau anghywir yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf, gan nad oeddent yn gallu rhoi enghreifftiau priodol o iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hymatebion.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r canolfannau dystiolaeth o samplau dysgwyr erbyn y dyddiad cau sef 11/06/2025, a chyflwynodd nifer o'r Canolfannau dystiolaeth ar ddyddiad cynharach. Fodd bynnag, anfonodd ychydig o ganolfannau y dystiolaeth yn hwyr, ac anfonodd rhai canolfannau dystiolaeth anghyflawn. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ofynnol yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys y Dyddiadur Myfyriol, y Lleoliad(au) Gwaith/Cofnod Ymgysylltu â'r Sector (wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr ymgeisydd i gadarnhau ei fod wedi ymgymryd â 100 awr) a'r Daflen Farciau (wedi'i dilysu drwy lofnodion yr Athro a'r Ymgeisydd ac wedi'i dyddio). Nodwyd nifer bach o wallau gweinyddol, megis cyfansymiau anghywir ar y Daflen Farciau , ac weithiau roedd gwahaniaeth rhwng y marc ar y Daflen Farciau, marciau ar waith yr ymgeisydd a marc ar waith yr ymgeisydd a gyflwynwyd ar-lein.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu hadroddiadau Asesiad Di-arholiad (NEA) yn effeithiol, gan ddefnyddio fformat ysgrifenedig clir a threfnus, ac fel arfer roeddent yn mynd i'r afael â phob tasg mewn trefn resymegol gan ddefnyddio teitlau is-benawdau. Yn gyffredinol, rhoddodd yr Aseswyr adborth clir a manwl ar waith dysgwyr, a oedd yn cefnogi gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol, a'r broses safoni gyffredinol. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ganolfannau lle'r oedd mwy nag un asesydd wiriadau cymedroli mewnol i sicrhau ansawdd a sicrhau bod y marciau a roddwyd wedi cael eu safoni drwy'r Ganolfan gyfan. Os oes gan ganolfannau fwy nag un asesydd, rhaid cynnal gwiriadau samplu sicrhau ansawdd mewnol i gadarnhau bod marciau wedi'u safoni drwy'r ganolfan gyfan. Neu, gall canolfan â sawl asesydd ddewis dyrannu asesydd ar gyfer tasg benodol/tasgau penodol er mwyn dangos proses safoni marciau.

© WJEC CBAC Ltd.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyson at eu lleoliad/gwasanaeth ym mhob rhan o'u hadroddiad gan roi enghreifftiau i gefnogi eu barn a'u casgliadau.
Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai tasgau mewn fformat mwy cyffredinol, heb gyfeirio'n uniongyrchol at y lleoliad na'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd ymatebion cyffredinol yn aml yng ngwaith yr ymgeiswyr nad oeddent wedi cael lleoliad priodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir pryder nad oedd rhai o'r ymgeiswyr wedi creu eu gwaith yn annibynnol.
Pasiodd y tîm cymedroli sawl adroddiad drwy wirwyr llên-ladrad/deallusrwydd artiffisial. Mae'r Corff Dyfarnu yn ymchwilio i bob achos o lên-ladrad/cyfrifon deallusrwydd artiffisial. Dylai'r Canolfannau fod yn ymwybodol y gellid diarddel ymgeiswyr rhag cael ardystiad o'r rhaglen hon pe byddai llên-ladrad yn cael ei gadarnhau. Cyflwynodd rhai o'r ymgeiswyr dystiolaeth a oedd wedi cael ei chopïo o ffynonellau eraill ac roedd sawl achos o lên-ladrad, nad oedd y Ganolfan wedi'u nodi. Gwnaeth ambell ymgeisydd gopïo a gludo gwybodaeth a oedd yn dod o ffynhonnell eilaidd ond nad oedd wedi'i nodi'n ddyfyniad uniongyrchol o'r ffynhonnell honno.

Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth o ffynonellau eilaidd, ond rhaid nodi'r ffynhonnell ac, os defnyddir yr un geiriad o'r ffynhonnell, rhaid iddo gael ei roi mewn dyfynodau. Pan oedd cymaint o wybodaeth yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, aeth yn anodd nodi pa waith ysgrifenedig a oedd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeisydd yn unig. Gwnaeth nifer fach o ymgeiswyr hefyd gopïo a gludo gwybodaeth yn uniongyrchol o'r fanyleb, nad oedd wedi cael ei nodi gan yr asesydd. Mae rhai canolfannau yn rhoi gwaith eu hymgeiswyr drwy 'wiriwr llên-ladrad', sy'n arfer da, i gefnogi prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Mae'n rhaid i aseswyr ac ymgeiswyr lofnodi Datganiad y Daflen Farciau i gadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, fod y gwaith a gyflwynwyd wedi cael ei gynhyrchu gan yr ymgeisydd yn unig.

Dylai'r Canolfannau hefyd atgoffa eu hymgeiswyr i sicrhau nad oes enwau lleoliadau/gwasanaethau a staff yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod gofynion cyfrinachedd yn cael eu bodloni. Mae angen i'r Canolfannau atgoffa eu hymgeiswyr y dylent gyfeirio at ddeddfwriaeth briodol, cyrff cofrestru ac arolygu yng Nghymru. Pan fydd yr ymgeiswyr yn gwneud gwaith ymchwil eilaidd, yn aml, maent yn cyfeirio at sefydliadau neu ddeddfwriaeth yn Lloegr fel Deddf Gofal 2014, nad yw'n gymwys yng Nghymru.

© WJEC CBAC Ltd.

Tasgau

**A(i)**

Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr amlinellu prif bwrpas y lleoliad/gwasanaeth a ddewiswyd a rôl y cyflogwr i hybu ac amddiffyn hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. Cafwyd atebion da i'r dasg hon ar y cyfan. Collwyd marciau posibl lle nad oedd yr ymgeiswyr wedi amlinellu rôl y cyflogwr, neu nad oeddent wedi cyfeirio'n briodol at y sector/lleoliad. Gallai'r ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthwahaniaethu, amrywiol bolisïau iechyd a diogelwch, y diwylliant sefydliadol a gweithdrefnau diogelu data a chyfrinachedd ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau. Llwyddodd yr ymgeiswyr i gyrraedd y bandiau marciau uchaf drwy wneud cysylltiadau effeithiol â'u lleoliad.

**A (ii)**

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr amlinellu dwy rôl swydd o fewn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd yn uniongyrchol fel rhan o ymgysylltu â'r sector neu mewn cysylltiad â'r lleoliad/gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys:

- prif bwrpas y rôl
- y sgiliau penodol sydd eu hangen
- gofynion o ran cymwysterau
- rheoleiddio proffesiynol fel y bo'n briodol i'r rôl

Amlinellodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddwy rôl swydd briodol o'u lleoliad ac roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi cael profiad yn y lleoliad/gwasanaeth a argymhellwyd gan CBAC yn tueddu i ennill marciau mewn bandiau uwch. Nododd yr ymgeiswyr sgiliau penodol a oedd eu hangen a gofynion o ran cymwysterau, ond cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn fwy cyffredinol at y DU yn hytrach nag at ofynion hyfforddiant penodol yng Nghymru. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cyfweld â'r staff yn eu lleoliad ac wedi ymchwilio i ofynion rheoleiddio a chymhwyster perthnasol, a gyfoethogodd eu hymatebion. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o'r ymgeiswyr wedi dewis rolau swyddi tebyg iawn. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu hymateb ac yn ei gwneud yn fwy heriol iddynt ddangos gwahaniaethau allweddol mewn dyletswyddau, cymwysterau a disgwyliadau rheoleiddiol. Gall annog detholiad ehangach o rolau cyferbyniol ond priodol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol gefnogi perfformiad cryfach mewn carfannau yn y dyfodol. Roedd rhai o'r ymgeiswyr oedd wedi cael lleoliadau addysgol wedi cyfeirio'n anghywir at OFSTED yn lle Estyn, sef yr arolygiaeth ysgolion yng Nghymru.

© WJEC CBAC Ltd.

**A(iii)**

Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr ystyried sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau yng Nghymru wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a llywio polisïau ac ymarfer i gyflawni canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n manteisio ar y gofal. Roedd yr ymgeiswyr a gyfeiriodd at ddeddfwriaeth ac arferion rheoleiddio penodol i Gymru a amlinellir yn y fanyleb wedi cyrraedd y bandiau marciau uwch. Collodd ymgeiswyr farciau drwy beidio â chysylltu deddfwriaeth ac arferion Cymru â'u sector/lleoliad. Dylid cyfeirio at ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac arferion fel y Cynnig Gweithredol, yn hytrach na deddfwriaeth gyffredinol fel y Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfeiriodd nifer o'r ymgeiswyr at leoliadau/gwasanaethau addysgol yng nghyd-destun deddfwriaeth ac ymarfer rheoleiddio. Methodd nifer o ymgeiswyr â chyfeirio at reoleiddio proffesiynol, nac roeddent wedi ymchwilio i enghreifftiau o Loegr ac wedi cyflwyno'r rhain, yn hytrach na gofynion yng Nghymru fel AGC (ar gyfer gwasanaethau gofal) a'r AGIC (ar gyfer gwasanaethau iechyd).

Fodd bynnag, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyfeirio at reoliadau, fframweithiau a deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru, a chymhwyso'r wybodaeth hon yn benodol i'w lleoliad/gwasanaeth, a oedd yn welliant o gymharu â chyfres y flwyddyn diwethaf.

**B**

Darparodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr archwiliad manwl a chlir o dri arfer a ddewiswyd i ddangos cyfathrebu, cyd-gynhyrchu, cydweithio, gwaith tîm a/neu broffesiynoldeb effeithiol, gan gyfeirio at eu dewis leoliad / lleoliad sector. Cafodd yr enghreifftiau hyn eu hesbonio'n dda ar y cyfan, gan ddangos sgiliau archwilio neu arolygu trylwyr ar gyfer amcan asesu AA3. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr gyfeiriadau penodol at leoliad/gwasanaeth eu profiad gwaith ac, felly, ni wnaethant lwyddo i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**C (i)**

Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr esbonio sut mae llwyddo i ddiogelu mewn lleoliad/gwasanaeth i sicrhau y gall unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau fyw yn rhydd rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.
Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu yn gryfder allweddol ar draws cyflwyniadau ymgeiswyr. Dangosodd hyn ddealltwriaeth gref o egwyddorion diogelu, ac adlewyrchodd yn effeithiol ar arferion diogelu yr arsylwyd arnynt neu a roddwyd ar waith yn y lleoliad/gwasanaeth. I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr ddarparu enghreifftiau o'u lleoliad i ategu eu gwybodaeth ddiogelu. Mewn rhai achosion, ni roddwyd sylw i gydrannau hanfodol diogelu. Gallai atebion fod wedi cyfeirio at sicrhau bod diogelu wrth wraidd ymarfer y lleoliad/gwasanaeth, gan gyfeirio at hyfforddiant sefydlu a pharhaus, cofnodion cywir wedi'u diweddaru, cymarebau diogel rhwng staff a defnyddwyr gwasanaeth, defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac annog adborth adolygu rheolaidd i wneud y system gwynion yn effeithiol.
Fodd bynnag, cyflwynodd rhai o'r ymgeiswyr wybodaeth yr oedd yn ymddangos ei bod wedi'i chodi'n uniongyrchol o ffynonellau eilaidd heb gyfeirio ati na'i chydnabod.

© WJEC CBAC Ltd.

**C(ii)**

Roedd yn rhaid i'r ymgeiswyr amlinellu'r canlyniadau posibl os na chaiff polisïau a gweithdrefnau diogelu y lleoliad/gwasanaeth eu dilyn. Dangosodd yr ymgeiswyr ymwybyddiaeth glir o'r canlyniadau posibl os na chaiff polisïau diogelu eu dilyn yn y sector. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu dealltwriaeth o'r goblygiadau difrifol i unigolion a sefydliadau. Roedd sawl cyfiawnhad a roddwyd gan rai o'r ymgeiswyr yn cysylltu'r canlyniadau hyn yn effeithiol yn ôl i natur agored i niwed yr unigolion penodol yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn eu lleoliad/gwasanaeth. Roedd y gallu i wneud cysylltiadau mewn cyd-destun yn dangos dull aeddfed a myfyriol o ddiogelu ac yn atgyfnerthu ansawdd y cyflwyniad. Fodd bynnag, cyflwynodd ambell ymgeisydd gyfrifon yr oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu cymryd yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, heb gyfeirio at y lleoliad/gwasanaeth.

**Ch**

Roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddadansoddi sut y cydymffurfir â chodau ymddygiad/ymarfer proffesiynol a sut y cânt eu cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'u hymgysylltu â'r sector. Roedd perfformiad ymgeiswyr oedd wedi cwblhau'r lleoliadau a argymhellwyd gan CBAC o ran y codau ymddygiad yn well ac roeddent yn gallu dadansoddi sut roedd y rhain yn cael eu dilyn o fewn y sector a ddewiswyd ganddynt. Gallai'r ymgeiswyr fod wedi cyfeirio at sut y caiff gwybodaeth ei rhannu â'r holl staff; cynnig hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth, prosesau rheoli perfformiad i sicrhau ansawdd a darparu gwasanaethau cwynion a chanmoliaeth. Unwaith eto, cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at arferion yn Lloegr/y DU ynghylch cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu, a'r gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu a ddefnyddir i archwilio codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol. Aeth rhai o'r ymgeiswyr ati i ddisgrifio, yn hytrach na dadansoddi, y wybodaeth oedd ei hangen i fynd i'r afael â'r dasg hon. Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch wedi llwyddo i rannu'r codau proffesiynol yn feysydd penodol ac wedi rhoi tystiolaeth glir o sut roedd pob agwedd wedi'i rhoi ar waith yn y lleoliad/gwasanaeth. Roedd hyn yn dangos dealltwriaeth gref o safonau proffesiynol a'r gallu i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol, gan wella ansawdd cyffredinol a pherthnasedd eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.

**D**

Roedd angen i ymgeiswyr egluro sut y gellid defnyddio dulliau gwahanol yn y lleoliad/gwasanaeth i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion unigolyn. Roeddent yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau a oedd yn benodol ac wedi'u hesbonio'n dda ar y cyfan. Roedd yr ymgeiswyr hynny a esboniodd y gwahanol fathau o ddulliau a welwyd yn ystod eu lleoliad, gan gysylltu theori ac ymarfer yn effeithiol, wedi cael marciau uwch. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi disgrifiadau arsylwadol, heb gyfeirio at theori ffurfiol ac yn tueddu i gael marciau is. Fodd bynnag, rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiadau clir a manwl, gan gyfeirio at ddulliau seiliedig ar weithgaredd, therapi ymddygiad gwybyddol, therapi ymddygiad a chymorth ymddygiadol cadarnhaol. Rhoddodd nifer o ymgeiswyr ddisgrifiadau mwy generig, a oedd yn dod yn uniongyrchol o ffynonellau eilaidd, ac nad oeddent wedi'u seilio yng nghyd-destun eu lleoliad/gwasanaeth.

**Dd(i)**

Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr egluro sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y lleoliad/gwasanaeth. Roedd angen esboniad ar gyfer amcan asesu AA2 i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth, yn hytrach na dim ond disgrifiad. Roedd defnyddio ymarfer myfyriol yn helpu'r dysgwyr i wella eu dealltwriaeth ac i fynegi eu profiadau'n gliriach ar gyfer y dasg hon. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at ystod eang o ymarfer a ddefnyddir gan staff y lleoliad, gan eu helpu i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr at ddiwallu anghenion unigol drwy bersonoli a hybu hunanhyder a grymuso. Gall y staff gynnau eu hymarfer, adeiladu arno a'i wella, a chyfrannu at eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Yn aml, cyfeiriwyd at y modd y gellir annog staff i fyfyrio ar gyd-destun codau ymarfer ac ymddygiad, i gefnogi dysgu manylach am amrywiaeth o sefyllfaoedd a brofir yn y lleoliad/gwasanaeth.

**Dd (ii)**

Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr egluro sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y lleoliad/gwasanaeth, gan gyfeirio at ddamcaniaethwyr perthnasol. Roedd yr ymgeiswyr oedd yn defnyddio eu dyddiadur myfyriol i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethwyr megis Kolb, Honey, a Mumford a Schon yn ennill marciau uwch. Roedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fanteision cofnod ysgrifenedig yn eu dyddiadur myfyriol, gan annog myfyrio personol a gwella ymarfer. Cyfeiriwyd rywfaint hefyd at werth gwaith cynllunio gweithredu unigol a mwy personol, cyfarfodydd tîm a rheoli perfformiad yn y lleoliad a ddewiswyd. Yn aml, roedd ymgeiswyr wedi arsylwi ar gyfarfodydd a thrafodaethau tîm rheolaidd i lywio'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, codi ymwybyddiaeth ohonynt a gwella eu heffeithiolrwydd. Dangosodd rhai o'r ymgeiswyr eu bod yn ymwybodol o sut roedd yr arferion sicrhau ansawdd hyn yn gwella gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn seiliedig ar foddhad swydd yn y lleoliad a ddewiswyd. Dadansoddodd nifer o'r ymgeiswyr ddamcaniaethau perthnasol a'u cymhwyso i'w profiadau yn eu lleoliad, gan roi enghreifftiau penodol o sut y defnyddiwyd y damcaniaethau hyn yn ymarferol.

Fodd bynnag, dim ond disgrifio damcaniaethau priodol a wnaeth nifer sylweddol o'r ymgeiswyr. Gwnaethant gyflwyno cyfrifon hir, nad oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu llunio'n annibynnol gan yr ymgeisydd ac y nodwyd eu bod yn cynnwys lefelau uchel o lên-ladrad gan y gwiriwr llên-ladrad/deallusrwydd artiffisial. Dewisodd ambell ymgeisydd ddamcaniaethwyr amhriodol fel Bowlby nad yw'n canolbwyntio ar fyfyrio nac ymarfer myfyriol. Cyflwynodd rhai ymgeiswyr lyfryddiaethau cyffredinol manwl i ddangos tystiolaeth o'u hymchwil helaeth i ffynonellau eilaidd, sy'n arfer da. Gwnaeth rhai ymgeiswyr hefyd gynnwys cyfeirnodi mewn testun yn eu hadroddiadau a chydnabod dyfyniadau uniongyrchol trwy ddefnyddio dyfynodau a nodi eu ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

1. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn cael eu rhoi mewn lleoliadau / gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer eu lleoliad profiad gwaith. Enw'r uned hon yw Gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y flwyddyn hon, roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr o hyd wedi'u rhoi mewn lleoliadau addysgol fel adrannau anghenion ychwanegol o fewn ysgolion prif ffrwd neu golegau. Mae'r canllawiau ar gyfer uned 6 yn nodi'r lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol posibl sydd ar gael i fodloni gofynion lleoliad gwaith. Noder nad yw lleoliadau mewn siopau elusen na chanolfannau chwaraeon yn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

2. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl dystiolaeth ddogfennol ofynnol yn cael ei lanlwytho a'i chyflwyno i'w chymedroli erbyn y dyddiad cau. Nodwch y caiff y dyddiad cyflwyno ei symud ymlaen i ddyddiad cynharach yn 2026. Dylai'r cyflwyniad y gofynnir amdano at ddibenion samplu gan CBAC gynnwys:
   - Gwaith asesiad di-arholiad yr Ymgeisydd (wedi'i anodi gan yr Athro a'r ymgeisydd, ac wedi'i gymedroli'n fewnol os oes dau aseswr neu fwy, er mwyn sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol wedi cael eu cynnal i safoni marciau ar gyfer y Garfan).
   - Y Dyddiadur Myfyriol (a ddylai gynnwys manylion am y lleoliad, a sylwadau myfyriol i gefnogi defnydd yr ymgeisydd o enghreifftiau o'r lleoliad/gwasanaeth i fynd i'r afael â thasgau'r asesiad di-arholiad).
   - Y Cofnod Ymgysylltu â'r Sector (i gynnwys y Datganiad gan yr Ymgeisydd bod o leiaf 100 awr, gan gynnwys cymryd rhan mewn 60 awr ar brofiad gwaith wedi digwydd).
   - Mae Taflen Marcio'r asesiad di-arholiad wedi'i chwblhau: mae wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr Athro a chan yr Ymgeisydd, i gadarnhau mai dim ond gwaith yr ymgeisydd ydyw ac nad oes llên-ladrad wedi digwydd.

Nodiadau ychwanegol dewisol (hyd at 2 dudalen o A4 a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd sydd wedi'u gwirio am ddilysrwydd gan y Ganolfan).

3. Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am wirio nad yw eu hymgeiswyr wedi camymddwyn, trwy lên-ladrata gwybodaeth o ffynonellau eilaidd neu gyflwyno cyfrifon a gynhyrchwyr gan ddeallusrwydd artiffisial. Mae nifer o becynnau meddalwedd ar gael i ysgolion a cholegau eu defnyddio wrth gynnal gwiriadau llên-ladrad / deallusrwydd artiffisial. Dylai canolfannau wirio gwaith ymgeiswyr am lên-ladrad/deallusrwydd artiffisial cyn ei asesu.

4. Dylai Aseswyr anodi gwaith asesu di-arholiad ymgeiswyr, i gyfiawnhau ble, a pham y rhoddwyd marciau. Dylai sylwadau ar y Daflen Farciau ar gyfer pob ymgeisydd hefyd ddarparu datganiadau crynodol, sy'n egluro sut y cafodd marciau eu rhoi fesul tasg asesu.

5. Dylid annog ymgeiswyr i nodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd ganddynt yn eu hasesiadau di-arholiad ac i gyflwyno llyfryddiaethau cyffredinol, sy'n dangos tystiolaeth o'u hymchwil i ffynonellau eilaidd.

6. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o sillafiadau Saesneg Americanaidd fel ‘center’, ‘organization’, ‘behavior’ a ‘prioritize’ yn eu hadroddiadau, ac osgoi eu defnyddio.

7. Mae angen i'r canolfannau atgoffau'r ymgeiswyr mai'r uchafswm cyfrif geiriau ar gyfer yr asesiad hwn yw 5,000 o eiriau. Cyflwynodd nifer sylweddol o ymgeiswyr adroddiadau oedd ymhell dros 5,000 o eiriau.

8. Dylai canolfannau gyfeirio at yr adnoddau a'r cyfleoedd hyfforddi, sydd ar gael ar wefan CBAC, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd i gefnogi athrawon a'u hymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

### Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau

### (Cyfres Haf 2025)

### Uned 7 - Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Dyma drydedd gyfres yr Haf o'r uned Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn braf gweld lefel y manylder a roddwyd gan rai ymgeiswyr yn eu papurau. Dewisodd rhai ymgeiswyr ateb ar y porth electronig a dewisodd llawer o rai eraill y fersiwn bapur. Yn y gyfres hon, roedd yn amlwg bod pob cwestiwn yn y papur yn hygyrch i'r ymgeiswyr a gadawyd llai o gwestiynau'n wag. Roedd hyd y papur yn amlwg yn hygyrch, a phrin oedd y dystiolaeth a welwyd o ymgeiswyr yn methu gorffen cwestiynau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r geiriau gorchymyn allweddol y gallent gael eu hasesu arnynt, er enghraifft, mewn cwestiynau AA2 a oedd yn defnyddio'r gair gorchymyn ‘esboniwch’, ni allai rhai ymgeiswyr roi rhesymau nac ystyried eu hateb yn fanwl. Byddai'n ddefnyddiol rhoi copi o eiriau gorchymyn yr asesiad i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau allanol er mwyn iddynt allu paratoi'n llawn.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn gryno yn y cwestiynau a oedd yn gofyn am atebion mwy llawn fel ‘esboniwch’ a ‘disgrifiwch. Dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu atebion llawn lle bo'r ferf orchmynnol yn gofyn am hynny. Yn achos yr ymgeiswyr a gafodd eu rhoi yn y bandiau marciau isaf, ar y cyfan roedd hyn oherwydd cwestiynau ar y system bilynnol, pwysedd y gwaed a rôl hyn i fonitro iechyd a llesiant. Roedd atebion llawer o'r ymgeiswyr yn aneglur ac roeddent hefyd yn aneglur wrth gymhwyso gwybodaeth am ffisioleg a/neu effeithiau'r rhain ar lesiant.
Mae'n bwysig bod canolfannau yn ystyried a yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy. Os nad yw llawysgrifen ymgeiswyr yn ddarllenadwy, dylid annog yr ymgeiswyr hyn i sefyll y fersiwn o'r arholiad ar sgrin.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Profwyd yr ymgeiswyr yn yr arholiad hwn ar draws y tri amcan asesu, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y meysydd cynnwys

**7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd**

Y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 3,4,7
Ar y cyfan, llwyddodd yr ymgeiswyr i ateb rôl y mitocondria yn hyderus ac i ddisgrifio eu bod yn bwerdai celloedd a'u rolau yn cynhyrchu egni. Roedd nifer llai o'r ymgeiswyr wedi disgrifio resbiradaeth celloedd. Roedd Cwestiwn 4 yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio'r tri math o feinwe cyhyrau a chafwyd amrywiaeth o esboniadau yma. Llwyddodd yr ymgeiswyr a oedd yn hyderus wrth esbonio mathau o gyhyrau cardiaidd, sgerbydol a llyfn i gyrraedd y band marciau uwch ond roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi esbonio rôl meinweoedd cyhyrau yn gyffredinol. Yn olaf, roedd cwestiwn 7 yn profi'r mathau o gelloedd yn y system imiwnedd a chafwyd amrywiaeth dda o fathau o gelloedd ar gyfer y cwestiwn hwn.

**7.2 Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol**

Y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 1,2,5,6,8 a 9
Mae llawer o atebion yr ymgeiswyr mewn perthynas â systemau ffisiolegol yn gwella. Mae'n dda nodi bod y canolfannau'n dod yn fwy medrus wrth addysgu'r fanyleb o ran adeiledd a swyddogaeth y system ffisiolegol. Dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wybodaeth hyderus am amrywiaeth o organau yn y system dreulio. Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farciau llawn am y cwestiwn hwn; lle na chafodd yr ymgeiswyr farciau llawn, roeddent wedi rhestru'r organau anghywir e.e. arennau a thracea. Ar y cyfan, rhoddodd yr ymgeiswyr ddisgrifiadau ardderchog o'r broses dreulio a chafwyd atebion cywir a llawn yn disgrifio'r camau gan gynnwys amlyncu, treuliad mecanyddol, cemegol, amsugno ac ysgarthu. Roedd yr ymgeiswyr gallu uwch wedi trafod trawsgludiad. Roedd cwestiynau 1 a 2 yn cysylltu â'i gilydd ac roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr wedi defnyddio'r organau i gefnogi eu hatebion.

Gwelwyd patrwm tebyg ar gyfer cwestiwn 5 a 6 a oedd yn gofyn i'r ymgeiswyr labelu rhannau o'r galon ac archwilio sut mae pwysedd gwaed yn effeithio ar swyddogaeth y galon. Ceisiodd yr ymgeiswyr labelu'r diagram a rhoddwyd amrywiaeth o atebion anghywir. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gafodd farciau llawn am nodi'r aorta, atriwm de, rhydweli ysgyfeiniol a fentrigl chwith yn gywir. Dylai'r canolfannau ganolbwyntio dulliau addysgu ar nodi'r prif organau a restrir yn systemau'r corff yn y fanyleb yn gywir. Ar gyfer cwestiwn 6, roedd angen i'r ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth am y galon i archwilio sut byddai pwysedd gwaed yn effeithio ar ei swyddogaeth. Gwelwyd amrywiaeth o atebion o ran pwysedd gwaed ac, ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn hyderus wrth drafod gorbwysedd ond nid o reidrwydd wrth archwilio'r ffordd yr oedd hyn yn gysylltiedig ag atheroslerosis yn y pibellau gwaed. Disgrifiwyd y ddwy ran yn gymharol dda ond ni chafodd ei harchwilio'n llawn. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi archwilio'n anghywir y byddai cyfaint y gwaed yn cynyddu gan achosi'r galon i ffrwydro. Cafwyd atebion da ar gyfer y system imiwnedd (Cw8) a'r system atgenhedlu (Cw9a/9b), a gwelwyd gafael hyderus ar y ddwy system.

© WJEC CBAC Ltd.

### 7.3 Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol

Y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 10.13 Roedd cwestiwn 10 yn cysylltu 7.2 a 7.3 Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr esbonio sut mae hydradu yn gallu bod o fudd i systemau ffisioleg ddynol. Yn yr un modd roedd cwestiwn 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr archwilio sut gall gordewdra effeithio ar y system gardiofasgwlar. Mae cyd-destun yr addysgu ar gyfer 7.3 yn cysylltu ac yn pontio'r wybodaeth am y systemau ac yn eu cymhwyso i broblemau cyffredin. Mae angen i'r ymgeiswyr a'r canolfannau ystyried sut y gall y materion cyffredin hyn effeithio ar y systemau ffisiolegol dynol a sut y byddant yn gwneud hynny. Cafodd hydradu a gordewdra eu disgrifio'n dda a gwnaed rhai cysylltiadau, fodd bynnag, ar y cyfan, y ddau gwestiwn hyn oedd y rhai a atebwyd waethaf yn y papur. Nid oedd y rhain wedi'u rhannu o ran berfau gorchmynnol asesu; yn aml roedd yr ymgeiswyr wedi hepgor ail hanner y ddau gwestiwn gan ateb hanner cyntaf y cwestiwn yn unig. Roedd ymgeiswyr uwch wedi archwilio'r mater yn llawn ac wedi cysylltu â'r system briodol.

### 7.4 Sut mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain

Y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r maes cynnwys hwn oedd: 11,12 a 14
Roedd cwestiynau 11 a 12 yn ymwneud â rhaglen sgrinio'r fron ac mae'n dda gweld bod yr ymgeiswyr wedi dangos gwybodaeth gadarn a chywir o'r broses ac o bwysigrwydd rhaglen sgrinio'r fron. Rhaid canmol canolfannau am addysgu'r rhan hon o'r fanyleb.
Roedd cwestiwn 14, yr un olaf, yn canolbwyntio ar gymharu mesuryddion anterth llif ac ocsimedrau pwls o ran monitro iechyd unigolyn. Cafodd mesuryddion anterth llif eu harchwilio'n dda ar y cyfan a chafodd ocsimedrau pwls eu diffinio'n dda ar y cyfan. Yn bennaf, roedd yr ymgeiswyr wedi cymharu'r ddau a rhoi amrywiaeth o fuddiannau i'w defnyddio wrth fonitro iechyd a llesiant unigolyn. Mae gan ocsimedrau pwls hefyd rôl yn monitro lefelau ocsigen yn y gwaed ynghyd â mesur cyfraddau pwls. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gyfeiriodd at hyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**(Cyfres Haf 2025)**

**Uned 8 Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.**

**Trosolwg o'r Uned**

- Dyma'r drydedd gyfres ar gyfer yr uned hon ac mae'n dda nodi bod canolfannau'n gwella yn y modd maent yn cyflwyno ac yn asesu'r uned.
- Cyfeiriwyd yn gliriach at enw'r unigolyn a enwir, a gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnydd araf ond cadarn gan amlinellu dulliau.
- Mae angen i'r canolfannau drafod cryfderau a gwendidau dulliau wrth addysgu er mwyn i'r ymgeiswyr fod yn barod am yr asesiad o'r astudiaeth achos a lansiwyd
- Dylid atgoffa'r canolfannau bod nodiadau (6 sleid, 3 tudalen) a logiau yn rhan orfodol o'r uned hon ynghyd â datganiadau ymgeiswyr.
- Mae'r cynllun marcio asesiadau yn newid bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu'r unigolyn a enwir a dylai canolfannau gyfeirio'n ofalus at y rhain yn nhaflenni datganiad yr ymgeisydd i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd.

**Tasgau**

**Tasg 1 (a)**

Argymhellir ar gyfer Tasg 1 (a) bod yr esboniad o ddarpariaeth/cyflwyno'r ddarpariaeth yn cael ei gyfuno a sut y gellid asesu anghenion unigol (ar wahân). Mae hyn yn helpu'r ymgeiswyr i strwythuro eu hatebion yn well. Roedd yn dda gweld bod yr ymgeiswyr yn ymwybodol o'r darpariaethau gwahanol sydd ar gael yng Nghymru. Roedd yr ymgeiswyr a gafodd farciau uwch yn gallu nodi eu hatebion yn briodol, er enghraifft, roedd yn dda gweld yr ymgeiswyr yn cyfuno eu hesboniadau o'r ddarpariaeth â chyflwyno'r ddarpariaeth. Roedd ymgeiswyr a enillodd farciau uwch yn gallu rhoi amrywiaeth o ddarpariaethau gwahanol a oedd yn **dangos gafael fanwl a hyderus**, gan gynnwys cyfeirio at ystod o ddarpariaeth statudol, darpariaeth annibynnol a darpariaeth gan y trydydd sector. Roedd hefyd yn galonogol gweld rhai o'r ymgeiswyr yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau arferol a'r rhai nad ydynt yn arferol, ac ymyrraeth gynnar/gwasanaethau ataliol.

O ran rhan yr asesiad ar gyfer Tasg 1, roedd yr ymgeiswyr yn gyffredinol yn dangos rhywfaint o wybodaeth am y broses asesu, ond yr agwedd bwysig yma yw dangos y broses anghenion asesu mewn perthynas â'r unigolyn a enwir, Carla. Yr allwedd i'r adran hon yw **'sut' y byddai asesiad anghenion yn cael ei gynnal yng Nghymru.** Gallai ymgeiswyr a ddangosodd afael hyderus ddefnyddio termau penodol fel **'asesiadau cymesur 'dull sy'n seiliedig ar gryfderau'**. Ar y cyfan, roedd y canolfannau wedi asesu'n gywir ar gyfer yr adran hon o waith yr ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

**(b)**

Roedd yn braf gweld bod ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth o ystod eang o ddulliau iechyd gwahanol y gellir eu defnyddio i hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn a enwir. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad o'r dulliau hyn a dim ond eu rhestru a wnaethant. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ystyried sut y gallai'r dull gweithredu hybu ac amddiffyn iechyd meddwl a llesiant Carla. Mae'r dulliau a restrir yn y fanyleb yno i gefnogi'r canolfannau wrth asesu gwaith yr ymgeiswyr, ond dylid rhoi sylw i'r ferf orchmynnol 'disgrifiwch' ar gyfer yr adran hon. Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi rhestru'r dulliau ar ffurf pwyntiau bwled ac nid oeddent wedi rhoi disgrifiadau pellach na digonol o'r dulliau. Nid oes rheol yn nodi faint o ddulliau y dylid eu disgrifio, ond mae angen iddynt fod yn eang eu cwmpas. Rhoddodd rhai o'r ymgeiswyr ystod eang o wahanol apiau y gellid eu defnyddio, sy'n dda, ond dim ond fel un dull o dan gyfryngau cymdeithasol neu gyfryngau torfol y byddai'n cael ei gyfrif. Gwnaeth bron bob canolfan asesiadau cywir ar waith yr ymgeiswyr yn yr adran hon.

**(c)**

Y flwyddyn diwethaf, y cwestiwn hwn oedd y gwannaf o ran yr ymatebion a gafwyd. Roedd yn dda nodi y flwyddyn hon y gwelwyd gwelliant amlwg yn yr adran hon. Mae'r gwahaniaethydd rhwng dau a thri. Os nad yw ymgeiswyr wedi cyfeirio at y cryfderau a'r gwendidau, bydd hyn wedi'i gyfyngu i fand marciau dau. Os cyfeiriodd yr ymgeiswyr at y cryfderau a'r gwendidau, byddai hyn yn eu galluogi i gyrraedd band marciau tri ac uwch. Dull gwybyddol oedd yr un a enwyd, a chyfeiriwyd yn fanwl at y damcaniaethau gwybyddol ynghyd â dulliau therapi yn yr adran hon. Cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at y cynlluniau fel yr amlinellwyd yn y cynllun marcio a thrafodwyd buddiannau llawn sut y byddai hyn yn helpu i gefnogi Carla. Roedd yr asesiadau'n gywir ar y cyfan ar gyfer yr adran hon, ond dylai'r canolfannau ystyried ac asesu'r adran hon yn ofalus gan fod rhai canolfannau'n rhy hael wrth farcio'r adran hon.

**Tasg 2**

Roedd yn dda gweld bod yr ymgeiswyr wedi gallu dangos eu hateb drwy ddilyn briff yr aseiniad drwy lunio llyfryn gwybodaeth. Roedd yn dda gweld borderi, ffontiau gwahanol a lliwiau. Dylid canmol y canolfannau am yr amrywiaeth o sgiliau technolegol a gweledol a ddangoswyd gan yr ymgeiswyr.

O ran y Dasg ei hun, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i amlinellu ystod eang o strategaethau a dulliau gweithredu ac i fod yn glir o ran sut y byddai hyn yn cefnogi patrymau ymddygiad cadarnhaol ac yn cyflawni ei nodau llesiant. Yr allwedd i'r bandiau uwch yw'r **ffocws ar Carla.**

Un ffordd ddefnyddiol i ymgeiswyr roi'r prif bwyntiau wrth amlinellu yw trwy:

1. Rhoi'r dull neu'r strategaeth (gan sicrhau bod hyn yn briodol i Carla)
2. Disgrifio hyn yn gryno a'r hyn y byddai Carla yn ei ddisgwyl
3. Sut y byddai'r dull neu'r strategaeth hon **yn helpu'n uniongyrchol** gydag ymddygiad Carla a'i gallu i gyflawni ei nodau llesiant.

Mae angen i'r ymgeiswyr gyfeirio at y rhain yn eu gwaith amlinellu i gyrraedd band marciau uwch.

Cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at y cynlluniau cymorth cadarnhaol a sut y byddai hyn yn cael ei dargedu i gefnogi Carla. Cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at ffrindiau dementia a rhoddwyd marciau i unrhyw gynlluniau lleol a nodwyd. Mae angen i'r canolfannau annog yr ymgeiswyr i ystyried effaith y strategaethau fel yr amlinellir yn y cynllun marcio a sut y gallai'r rhain gefnogi'r unigolyn a enwyd. Nid yw'r wybodaeth yn y cynllun marcio yn rhestr gynhwysfawr a dylid cyfeirio ati yn y llyfryn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Lefel 3: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**(Cyfres Haf 2025)**

**Uned 9 – Canllawiau ar**
**Adroddiad y Cymedrolwr**

## Sylwadau Cyffredinol

Gwelwyd asesiadau cywir gan y rhan fwyaf o'r canolfannau. Dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i'r ymgeiswyr roi tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

Dylid annog canolfannau i fod yn fwy penodol wrth ddewis mater cyfoes i ymchwilio iddo oherwydd y byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle iddynt gyrraedd y bandiau marciau uwch a bodloni'r meini prawf a bennwyd.

Roedd gwaith ymgeiswyr yn dilyn amcanion asesu'r corff dyfarnu, ac roedd tasgau'n gysylltiedig â'r amcanion hyn. Cofnodwyd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd yn dda trwy gyfeirnodau. Dylai'r asesiad ddilyn strwythur taflen marcio'r asesiad (Tasg 1, Tasg 2, adrannau A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, a fyddai wedyn yn arwain at gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu o fewn amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y rhoddwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a roddwyd.

Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu'n derfynol.

Nodyn atgoffa bod adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu amlinellu sut y byddent yn cynnal eu hymchwiliad i'r mater cyfoes. Roedd gwybodaeth dda a sylw o'r gwahanol agweddau ar eu rhesymeg. Cwblhawyd y dasg yn fformat priodol adroddiad. Dewisodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr faterion cyfoes priodol a oedd yn fodd iddynt gyflawni'r amcanion asesu a chyrraedd y bandiau marciau uwch. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ymchwilio i'r materion cyfoes cyn dechrau Tasg 2 er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i gyflawni'r amcanion asesu. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Roedd y ffordd y cwmpaswyd yr amcanion asesu yn dda iawn gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Mae angen i rai o'r ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cwmpasu'r holl feini prawf cyflawni a nodir yn y fanyleb yn fanwl a gyda dyfnder ar gyfer y band marciau uwch. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch ar gyfer:

- Adnabod nodau ac amcanion
- Dangos gwybodaeth glir a manwl am gynnal ymchwiliad
- Diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant
- Amlinellu terfynau amser
- Adnabod risgiau yn gywir a sut y cânt eu rheoli
- Mae amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio'n gywir
- Nodi ystyriaethau moesegol

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i chymhwyso'n briodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio at y rhain. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

**Tasg 2**

Cwblhawyd Tasg 2 yn fformat priodol adroddiad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, sy'n helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran A**

Dangoswyd gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae'r mater cyfoes yn effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a'r gwasanaethau yng Nghymru. Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac yn cael ei chymhwyso'n briodol a chyfeiriwyd at y mwyafrif o'r ymchwil/adnoddau. Rhaid i'r ymgeiswyr sicrhau bod gan y cynnwys fwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhoddir ffeithiau ac ystadegau manwl i gefnogi disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch ar gyfer:

- Esboniad o'r mater cyfoes
- Effeithiau'r mater cyfoes ar iechyd a llesiant unigolion
- Effeithiau'r mater cyfoes ar y gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru
- Dealltwriaeth o anghenion corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau bob dydd
- Rhoddir ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

**Adran B**

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth am addasrwydd ymchwil gyhoeddedig i'r mater cyfoes o'u dewis, gan gynnwys y mathau o ymchwil a gyhoeddwyd, a dibynadwyedd, dilysrwydd a hygrededd yr ymchwil a'r sefydliadau a oedd yn ymwneud â'i chynhyrchu a'i chyhoeddi. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch. Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch, yn enwedig mewn perthynas â dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd ar gyfer:

- Gwerthusiad o ymchwil gyhoeddedig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes
- Gwaith ymchwil cynradd a/neu eilaidd
- Data ansoddol a/neu feintiol
- Y methodolegau ymchwil a ddefnyddir gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data
- Dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran C**

Roedd ymgeiswyr yn dangos lefel dda o wybodaeth o ran dadansoddi ymchwil a data dethol, gan gynnwys patrymau a thueddiadau a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau. O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch ar gyfer:

- Dadansoddiad o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau rhagorol rhwng gwahanol ffynonellau
- Nodwyd unrhyw gyfyngiadau sydd i'r gwaith ymchwil
- Dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol
- Dealltwriaeth o unrhyw faterion moesegol perthnasol
- Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Mae'r ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, a rhaid cyfeirio at y rhain. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

**Adran Ch**

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae ymchwil i'r mater cyfoes o'u dewis yn cael ei defnyddio, neu wedi cael ei defnyddio, i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig, a/neu ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch ar gyfer:

- Esboniad o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisïau a strategaethau

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran D**

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda wrth wneud argymhellion ar ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud yn y dyfodol ac egluro pam y byddai ymchwil o'r fath yn fuddiol. O ran rhai ymgeiswyr, mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder er mwyn cyrraedd band marciau uwch.

Rhaid bod yr holl feini prawf asesu wedi cael eu bodloni'n llawn cyn rhoi marciau uwch ar gyfer.

- Pa waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, gan wneud argymhellion dilys ac y gellir eu cyfiawnhau.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn dyfarnu bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon ar dudalennau 61-64 o'r fanyleb.

Pan fydd yr ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, rhaid cyfeirio at y rhain. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y'i nodir yn y fanyleb. Anogir y defnydd o benawdau (Adran (a), (b), (c) ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno gwaith.

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a roddwyd a lle mae'r amcanion asesu wedi'u rhannu. Nodyn atgoffa bod adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 265139
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Cymwysterau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Asesu am y Tro Cyntaf 2024)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.